ECO'R WYDDFA

RHIF 307 NADOLIG/IONAWR 2004 PRIS 40c

Atodiad **Cyfarchion Nadolig** hysbysebwyr:
LLANRUG
BETHEL, CAEATHRO
PENISARWAUN
A WAUNFAWR

BAND AR Y BOCS

Mi fydd Seindorf Arian Llanrug i'w gweld mewn rhaglen deledu arbennig dros y Nadolig. Mae criw ffilmio wedi bod yn dilyn y band dros gyfnod o chwe mis er mwyn gwneud rhaglen 'pry ar y wal' ar gyfer arlwy Nadolig S4C.

Ac yn wir, fe fydd yr holl bentrefwyr yn rhan o'r rhaglen, wrth iddyn nhw ddod ynghyd i hel arian at y band – yn enwedig yr 'ocsiwn addunedau' lwyddiannus gafodd ei chynnal yn nhafarn y Penbont.

Mae BBC Cymru wedi bod yn dilyn y band dros y 6 mis diwethaf, o gystadlu yn y Steddfod Genedlaethol, i gystadleuaeth bwysicaf bandiau y pres – sef Pencampwriaeth Bandiau Pres Prydain Fawr – yn yr Alban.

Bydd rhai o gymeriadau'r band hefyd yn dod i'r amlwg yn y rhaglen, gan gynnwys Merfyn Jones, Berwyn Owen a Gwyrfai Williams.

Un o'r rhai sy'n amlwg yn y rhaglen, fydd yn cael ei dangos ar 2 Ionawr am 8.25pm, ydi'r arweinydd Gavin Saynor. Mae'r gŵr ifanc yn un o offerynwyr gorau Ewrop ac yn chwarae gyda band y *Yorkshire Building Society* – un o fandiau gorau Ewrop. Mae'r dyn 27 mlwydd oed wedi dychwelyd i fro'r Eco ac wedi cymryd yr awenau yn Llanrug.

Gyda'i deulu wedi bod yn chwarae gyda band Deiniolen ers sawl cenhedlaeth, mae synnau'r band prcs yn ei wacd – ac mae'n teithio 200 milltir ddwywaith yr wythnos i Huddersfield ac yn ôl er mwyn chwarae hefo band YBS, ar ben ei gyfrifoldeb hefo Llanrug.

'Mae'n anodd meddwl,' meddai Gavin, 'am weithgarcdd arall lle dach chi'n cael rhywun 80 oed, er enghraifft, yn eistedd wrth ymyl rhywun 8 oed, ac yn cael yr un mwynhad – dwi'n meddwl fod hynna'n ffantastig ac yn unigryw i fandia pres.'

Cymeriad lliwgar arall yn y rhaglen yw Cadeirydd y band, Berwyn Owen, yn wreiddiol o Lanrug, ond nawr yn byw yng Nghaernarfon. Mae'n frwd o blaid gweld y band yn uwch adran bandiau pres Prydain, ar ôl cael blas ar lwyddiant gyda band *Ever-Ready* tra roedd o'n byw am gyfnod yng ngogledd Lloegr.

'Pan nes i ymuno yn ôl gyda band Llanrug, oni jest a thorri 'nghalon,' meddai Berwyn. 'Doedd 'na ddim wmff yn y band, a phawb bron wedi diflasu. Mae'r band yn mynd ers bron i ddau gant a hanner o flynyddoedd, ers adeg Rhyfel Annibyniaeth yn yr UDA, ac 'on i'n benderfynol bod y band yn mynd i ailafael ynddi, ac ein bod ni'n mynd i ennill cystadleuaeth o bwys.'

Band Deiniolen

Mi fu Seindorf Arian Deiniolen hefyd yn y cyfryngau ym mis Rhagfyr – ar Radio Cymru, rhaglen Wedi 7 ar S4C ac yn rhai o'r papurau lleol. Yn dilyn agor eu cwt band newydd yn gynharach yn y flwyddyn rhoddwyd plac y loteri i fyny ar yr adeilad gwych – adeilad sy'n hwb i'r chwaraewyr i gyd.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus i'r ddau fand – a hei lwc ar gyfer 2004.

* Gellir gweld Seindorf Arian Llanrug yn *Y Band*, nos Wener, 2 Ionawr am 8.25 yr hwyr ar S4C.

(Mwy o luniau ar dudalen 5)

Ffair Nadolig Menter Fachwen

Criw Menter Fachwen yn gwerthu nwyddau, gyda Morfudd Hughes o 'Rownd a Rownd', yn Ffair Nadolig Menter Fachwen: Keith Edwards, Elfed Hughes, James Andrew, Morfudd Hughes, Steffan Ashton, Phil Jones, Andrew Edwards (blaen).

Llongyfarchiadau i Heledd Wyn Jones, enillydd Cadair Ysgol Brynrefail 2003. Mae ei stori fuddugol ar y dudalen rydd.

ECO'R WYDDFA

RHIF 307
DOLIG/IONAWR 2004

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tîm Golygyddol
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Ellis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650788)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
DEINIOLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, IONAWR 19
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, IONAWR 29

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Chwefror	19 Ionawr	29 Ionawr	Waunfawr	Mrs Nan Roberts	650 570

Llythyrau

Radio Cymru
Ystafell 2001
BBC Cymru
Llandaf Caerdydd CF5 2YQ

Annwyl Gyfeillion,

Mae tîm Radio Cymru bellach yn gweithio ar gyfres newydd o'r rhaglen *Pawb a'i Brofiad* gyda Guto Harri, ac rydym yn gobeithio ymweld ag ardaloedd Porthmadog, Rhydaman, Casnewydd a Llandeilo yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn newydd. Byddwn yn trafod pob math o bynciau dwys a difyr – o fyw gydag anifeiliaid a byw mewn dyled, i briodi, bwlio a theuluoedd un rhiant, o brofiadau pobl sydd wedi colli eu golwg i hanesion pobl sydd wedi llwyddo i ddianc o grafangau marwolaeth.

Felly, rydym ni'n awyddus iawn i glywed eich hanesion personol chi er mwyn sicrhau y bydd y gyfres yn llawn straeon a phrofiadau amrywiol – y dirdynol a'r difyr – o bob cwr o Gymru.

Os oes ganddoch chi hanesion i'w rhannu neu os gwyddoch am rywun sydd a stori dda i'w hadrodd ar y pynciau hyn, neu os carech chi fod yn aelod o'r gynulleidfa ar y noson, mae croeso i chi gysylltu â ni yn Radio Cymru drwy ffonio'r linell wybodaeth ar: 08703 500 600.

Edrychwn ymlaen at glywed ganddoch chi.

Yn gywir,
Criw cynhyrchu
Pawb a'i Brofiad.

DDOE A HEDDIW

Flwyddyn union yn ôl cynhaliwyd tân ar hen aelwyd Hafoty, Gwaun Cwm Brwynog, am y tro cyntaf am dros hanner canrif, pan symudodd Geraint ac Eira Morris i fyw i'r cwm. Un o hen dylwyth y Cwm oedd Ellis Owen neu Ellis y Foty, fel y'i adnabyddir yn lleol. Un o'r diwethaf i'w eni yn y Foty oedd mab Ellis, sef Robert Wynne Owen, sydd yn awr yn byw yn Nghricieth. Eleni fe ymwelodd Robert â'r teulu bach newydd yn Hafoty. Yn yr hen lun, a dynnwyd tua 1919, mae Robert ym mreichiau ei fodryb Lilly gyda'i dad, Ellis, ar y ceffyl (ail o'r chwith) a'i fam Jane wrth ochr yr un ceffyl. Gadawodd Robert yr Hafoty pan yn dair oed ac mae'n hyfrydwch o'r mwyaf ganddo fod teulu ifanc Cymreig wedi symud i'w hen gartref. Yn yr hen lun fe welir tri o blant, a hyfryd yw nodi fod yna eto heddiw dri o blant yn byw ym mhen pellaf Gwaun Cwm Brwynog, sef Gwenno, Sion Ifan a Ellis Arddu. Roedd yn gyd-ddigwyddiad llwyr i Robert ymweld â Hafoty ar ddiwrnod pen-blwydd Ellis Arddu yn flwydd oed. Gwelir y ddau ohonynt yn y llun gyda Robert yn cefnu o'r cartref am yr ail waith yn y llun arall.

Cwm Brwynog a Chwm Pennant
Y naill a'r llall ei fro,
Er mynd yn llaw ei riant
Daeth yn ei ôl am dro.

D.M.

Dymuna Geraint, Eira a'r plant ddiolch am y croeso a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt gan drigolion Llanberis ers iddynt symud i fyw i Hafoty, Gwaun Cwm Brwynog.

Cyngor Cymuned y Waunfawr

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yn Y Ganolfan, Waunfawr ar nos Lun, 1 Rhagfyr. Roedd y Cynghorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol.

Ar gychwyn y cyfarfod cafwyd cyflwyniad gan Hywel Williams A.S. ar effaith y mesurau sydd o flaen Senedd San Steffan ar hyn o bryd, er enghraifft, y ffyrdd newydd o archwilio cyfrifon llywodraeth-au yng Nghymru; ail-asesu bandiau Treth y Cyngor; ffioedd myfyrwyr yn y colegau a'r prifysgolion; newidiadau yn y gyfundrefn o drwyddedu eiddo ar gyfer yfed alcohol ac adloniant byw (e.e. cyngherddau mewn cwt gwair!) ac ysbytai sylfaen.

Oherwydd anghysondeb y cyflymderau gyrru o amgylch Caeathro, bydd y Cyngor yn argymell yn gryf i Gyngor Gwynedd fod y ffordd fawr rhwng Mur Mathew a Thyddyn Pandy, yn cael ei gostwng i 30mya. Hefyd y ffyrdd cul o amgylch Penrhos, Cae Phyllip, Pen y Bryn a Rhosbach, er mwyn diogelu'r nifer mawr sy'n cerdded yr ardal gan ymarfer.

Mae'r Cyngor wedi cytuno i roi'r symiau canlynol: Ambiwlans Awyr Cymru – £50; Eco'r Wyddfa – £100; Pwyllgor Cae Chwarae Caeathro – £200 ar gyfer ffensio'r cae pêl-droed; Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005 – £500; Tŷ Gobaith – £50; Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2004 – £50; Ysgol Feithrin y Bontnewydd – £100.

Oherwydd polisi'r Heddlu o beidio cyflogi wardeniaid traffig, a dim bwriad gan Gyngor Gwynedd i ymdrin â'r pwerau, does dim gorfodaeth yn erbyn y sawl sy'n parcio'n anghyfreithlon.

Mae Cyngor Gwynedd wedi caniatau estyniad i rif 6, Bryn y Gof. Bydd y Cyngor yn gwrthwynebu newid defnydd i Benrhos.

Bêls Bach Haylage
AR WERTH
Porthiant o ansawdd uchel ar gyfer ceffylau a defaid.
Modd danfon llwythi bychan yn lleol, ffoniwch Hedd ar
07765 860 643

DMM

Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth pawb yn DMM

www.dmmwales.com

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

EIRWYN WILLIAMS

LLWYNCOED
CWM-Y-GLO

Ffôn: (01286) 870563

Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn

Dathlu Diwrnod

acadeMI

Santes Dwynwen

yn Neuadd yr Hendre, Talybont, ger Bangor
nos Fercher, 21 Ionawr 2004
Barddoniaeth a Chân dan arweiniad
IWAN LLWYD
ac yng nghwmni'r beirdd:
PEREDUR LYNCH,
SIÂN NORTHEY, GERAINT LØVGREEN,
GWYNETH GLYN, NIA POWELL AC
ARWYN GROE
£10 (yn cynnwys lluniaeth)
Tocynnau ar werth nawr drwy ffonio
Olwen Dafydd ar
(01766) 522817 olwen@academi.org
Neu Gwen Lasarus ar **(01286) 675944**
GwenLasarus@gwynedd.gov.uk

STEPHEN JONES

Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol Profiadol

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb

DRAENOG

Dim Maddeuant

Ar ôl cael ei stopio gan yr heddlu am yrru car heb wisgo gwregys, aeth gŵr o Lanberis ar ei lw na wnâi byth y camgymeriad yna eto.

"Na i byth hynna eto, Offisyr," meddai mewn llais digalon, yn y gobaith y byddai'n cael maddeuant. 'Wir yr, CHRIS croes, tân poeth, torri 'mhen a thorri 'nghocs.'

Ofer fu ei ymdrechion. Ond ei boen fwyaf oedd gorfod torri'r newydd i'w wraig. Profodd hynny yn fwy o GUR WEN, sori, gur pen iddo!

DRAENOG

Homar o Omlet

Yn anffodus defnyddiodd holltwr a naddwr medrus o'r Gilfach Ddu flawd anghywir i wneud omlet. Cododd a chwyddodd y gymysgedd yn fynydd crempoglyd!

Yn ôl y Guinness Book of Records mae yn DENu llaweroedd i Westy'r Dolbadarn, lle mae'n gweithio i Aneuryn fel *BUDding Chef*, yn paratoi biff a Yorkshire Pudding mwya'r byd!

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus dydd Nadolig na Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr,
na Dydd Calan, 1 Ionawr 2004. Gwasanaeth arferol bob diwrnod arall.

O SIAMBAR SELWYN

Fel un sy'n hoff o grwydro, fyddwn i byth yn ystyried mynd i ffwrdd dros y Nadolig. Na, aros adre fu'r drefn erioed. Unwaith yn unig mae gen i gof o fod oddi cartref dros yr Ŵyl, a hynny pan oedd Brenin Prydain wedi mynnu cael fy ngwasanaeth yn ei Lu Awyr. Fûm i fawr o help i'r hen Jorj, mae gen i ofn, a welais i'r un eroplèn tra bûm i'n gwisgo'r iwnifform.

Mae'r Nadolig fel wythnos y Brifwyl i mi. Fyddwn i byth yn ystyried mynd i unman a cholli'r Eisteddfod. Dwi wedi bod yn y rhan fwya ohonyn nhw ers 1935, ac wedi treulio wythnos lawn ymhob un ers 1960. Ond mi fûm i'n mynd am flynyddoedd i dreulio'r flwyddyn newydd yng Nghaeredin, ac mi roedd hynny yn brofiad byth-gofiadwy. Ond ers tua thair blynedd bellach, rydwi wedi dathlu'r flwyddyn newydd adre hefyd. Pam, ys gwni? Henaint?

Petawn i ar foment wan yn cael fy nhemtio i godi pac tros yr Ŵyl, – i ble'r awn i? Wel yn sicr, nid i dorheulo ar draeth rhyw ynys bellenig, a dim hyd yn oed i fy 'ail gartre', Majorca. Na, fe hoffwn i fod ynghanol yr eira, yng nghesail y mynyddoedd, yn rhywle fel y Swisdir, Awstria neu Norwy, neu hyd yn oed yn Greenland bell lle bûm i yn ystod yr haf. Lapio'n gynnes a throedio drwy'r eira a dychwelyd at danllwyth o dân coed i fwynhau'r gwledda a'r dathlu. Byddaf, mi fydda i'n hoffi gweld 'pen yr Wyddfa'i gyd yn wyn' dros dymor y Nadolig.Mae'n siŵr gen i, blant, y byddai Nadolig gwyn yn rhoi lliw ychwanegol ar eich 'Dolig chwithau. Wedi gwagio'r hosan a'r gwledda, ac agor yr holl barseli, mor braf fyddai cael mynd allan i ganol yr eira o sŵn y teledu a chlecian pob cracer. Sôn am gracer, glywsoch chi am y cracer rhyfedda a grewyd erioed.

Roedd y cracer ryfeddaf a grewyd erioed
Yn ymestyn o Fangor i Fetws-y-Coed,
A thîm rygbi'r ddinas a thîm o Nant Conwy
Fu'n chwysu a baglu wrth dynnu a thynnu
Nes creu andros o glec ar lannau Llyn Ogwen
A dyna fu achos y Nadolig Llawen.

Oherwydd

O'r cracer anferth, fe ddaeth mul a chath,
Jiraff a mwnci, neidar gantroed chwe llath,
Eliffant pinc, naw chwannen a chi,
Sebra a llwynog a tshimpansî;
Ceffylau, llyffantod a sawl deryn to,
Cwningen a bustach, caneri a llo;
Dau ddalec o Mars, a llygod yn bla,
A dau ddyn eira, os gwelwch chi'n dda.

A mawr oedd y stŵr a'r halibalw
Pan drocs Dyffryn Ogwen yn gartref i sŵ,
A'r plant wrth eu bodd yn cael amser ffantastig
Pan ffrwydrodd y cracer ar fore Nadolig;
A phan ddaeth y diwrnod cofiadwy i ben
Roedd y lluniau i gyd ar *News at Ten*,
Ac am wythnosa' bu taeru a dadla
Nad cracer oedd o...
... ond yr AIL ARCH NOA.

Nadolig Llawen i bawb ac yn enwedig i chi blant. Diolch i chi am droi i mewn i'r siambar yn ystod y flwyddyn.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod Mrs Nellie Valmai Pritchard, Pen Dyffryn yn yr ysbyty yn Llandudno ers rhai dyddiau bellach.

Hefyd mae Mrs Maureen Dudley, Minffordd yn Ysbyty Gwynedd. Yr wyf yn siŵr ein bod fel ardal yn dymuno gwellhad buan i'r ddwy, ac y byddant adref yn lled fuan. Brysiwch wella eich dwy.

Drwg gennym ddeall hefyd fod John G. Jones, 9 Tan y Foel yntau yn Ysbyty Gwynedd. Gan fod John yn un o flaenoriaid y capel yng Nghefn y Waun, ac yn hynod o ffyddlon yno, mae ei le yn wag. Felly, John, brysia wella a gobeithio y cawn dy weld hefo ni yn y capel yn lled fuan, wedi cael gwellhad.

UN O BLANT YR ARDAL ADREF. Rai wythnosau yn ôl bellach, daeth un o blant Dinorwig yr holl ffordd o Awstralia i dalu ymweliad â'r hen ardal, sef Euros Lewis, gynt o Fryn Sardis. Ymfudodd y teulu, sef ei rieni, Harry ac Elizabeth Lewis, a Gwyneth ei chwaer, a hynny bron i 33 o flynyddoedd yn ôl, ond deil Cymraeg y pedwar mor rhugl ac erioed. Mae nifer fawr o'u teulu a'u ffrindiau o fro'r Eco yn cadw mewn cysylltiad agos â hwy, a bu Euros yn brysur iawn yn galw i weld pob un ohonynt.

Ond er y llawenydd o adnewyddu'r gyfeillgarwch, trist nodi i Euros golli ei briod, Barbara, ychydig fisoedd ynghynt, wedi dioddef salwch blin. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys ag ef a'r teulu yn eu hiraeth. Dymunwn fendithion yr ŵyl iddynt.

CLWB ORWIG. Cyfareddwyd aelodau'r clwb gan luniau arbennig o olygfeydd o ogledd Cymru yn eu cyfarfod ar 13 Tachwedd. Casglwyd y lluniau dros gyfnod o flynyddoedd gan Dennis Glass, a derbyniodd gymeradwyaeth frwd o werthfawrogiad gan yr aelodau. Cyflwynwyd tusw o flodau i Nellie Wyn Jones a Betty Ann Jones ar achlysur eu pen-blwyddi. Diolchodd Betty Bower am yr anrhegion ac am y fasged ffrwythau a llysiau. Da deall ei bod yn well.

Derbyniwyd rhodd o £50 gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, a rhodd o £64.78, sef hanner y swm a gasglwyd o dŷ i dŷ gan *Age Concern* Gwynedd a Môn.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Feddygfa Deiniolen am y swm o £82.50 a gasglwyd gan aelodau'r Clwb yn eu Gŵyl Ddiolchgarwch.

Rhoddwyd y te a'r gwobrau raffl gan John a Rose Cantrell a gwobr ychwanegol gan Joan a Dennis Glass. Yr enillwyr oedd Kathleen Davies, Alice Griffith a Dennis Glass.

HWYL YR ŴYL. Carwn ddymuno Nadolig Llawen i bawb yn yr ardal, ac y cawn weld gwir ystyr yr ŵyl ac y bydd pawb sydd yn cwyno yn gallu ei mwynhau, gan wynebu'r flwyddyn newydd hefo gwell iechyd a mwy o hyder. Hwyl yr ŵyl i bawb.

DYMUNA Geraint, Eira a'r plant ddiolch o'r mwyaf am y croeso a'r caredigrwydd a dderbyniwyd gan drigolion Dinorwig yn ystod eu hamser yn y pentref.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis 870253

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E. W. Pritchard
62 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT
AA Specialist
RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

BAND AR Y BOCS



Cymeriadau o Fand Llanrug (stori ar y blaen)
Berwyn Owen, Gavin Saynor a Gwyrfai Williams yn chwythu'r corn.

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Derek ac Eleanor Morris ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag at Derek wedi ei driniaeth ym Manceinion. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Eifion a Bessie May Williams Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'u ffrindiau a'u cymdogion, gan na fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni.

DYMUNA Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Olau, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu a ffrindiau o Fro'r Eco.

YSGOL FEITHRIN. Cynhaliwyd Noson Tân Gwyllt yn yr Ysgol Feithrin y mis diwethaf a hoffwn ddiolch i bawb a gefnogodd y noson yn ogystal â'r rhieni oedd yn helpu ar y stondinau.

Daeth y plant (a'r staff!) i'r Ysgol Feithrin yn eu pyjamas ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen a chasglwyd £15 tuag at yr achos.

Cynhaliwyd Parti Nadolig y plant ddydd Iau, 11 Rhagfyr. Cafodd y rhieni gyngerdd gan y plant ac yna galwodd Siôn Corn gydag anrhegion iddynt.

Bydd yr Ysgol Feithrin yn cau am ŵyl y Nadolig ar ddydd Mercher, 17 Rhagfyr ac yn ailagor ar ddydd Mawrth, 6 Ionawr 2004. Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb a diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y tymor diwethaf.

CEFN Y WAUN. Bydd Eifion Williams yn rhoi'r gorau i edrych ar ôl yr adeiladau ar ddiwedd 2003. Rydym yn wir ddyledus iddo am ei waith manwl a chyson dros flynyddoedd lawer. Diolch yn fawr, Eifion.

Mae un o'n blaenoriaid, sef John G. Jones, Tan-y-foel, yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella, John, mae eich lle yn wag.

GWASANAETH NADOLIG. Dydd Sul, 21 Rhagfyr cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Ebeneser am 10.00 o'r gloch, a Gwasanaeth Undebol yn Eglwys Llandinorwig yn y nos.

Plant Ysgol Feithrin Deiniolen ar ddiwrnod Plant Mewn Angen, wedi gwisgo pyjamas i godi arian.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

DRAMA'R NADOLIG. Nos Sul, 14 Rhagfyr, cynhaliwyd drama'r Nadolig yn Eglwys Sant Peris. Bu'r plant wrthi'n ymarfer yn brysur iawn am rai wythnosau ymlaen llaw a braf oedd gweld yr eglwys yn llawn. Perfformiodd y plant yn arbennig – tipyn gwell na'r oedolion! Diolch i bawb a gynorthwyodd hefo'r noson: y plant yn gyntaf (Gwenno, Gethin, Manon, Miriam a Kate; Alice a Sioned; Gareth a Megan: Janie ac Elinor; Elin Haf; Stephanie ac Erin); Gareth Jones; i Gyfeillion yr Eglwys am eu cymorth; i'r Parch Vittoria Hancock; Gareth a Simon am eu gwaith technegol; Sara ac Amanda; Mr Emerson Hughes; Ann Cumberton a PHAWB arall a gynorthwyodd efo'r noson.

DYMUNIADAU GORAU i Tony Ellis, 5 Nant Ffynnon ar ei ben-blwydd arbennig ar 20 Rhagfyr.

CYNGERDD. Fe fydd y grŵp gwerin adnabyddus, Pigyn Clust, yn perfformio yn Eglwys Sant Peris ar 12 Ionawr 2004. Croeso i bawb.

Dymuna Gwenda Glanrafon ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd. Diolch yn arbennig am y 'sypreis parti' bythgofiadwy!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb.

CAPEL REHOBOTH

'Nesau at Dduw sydd dda i mi'

Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn oedfaon mis Ionawr (am 2.00p.m.):

4 Ion:	Parch Harri Parri, Caernarfon
11 Ion:	y Gweinidog
18 Ion:	Parch Ddr. Alwyn Roberts, Tregarth
25 Ion:	y Gweinidog
1 Chwef:	Parch Trefor Jones, Caernarfon

Lluniaeth i ddilyn yn y festri am 3.00p.m. Cyfle i brynu nwyddau 'masnach deg'.

Cludiant yn rhad ac am ddim wrth ffonio 871218 neu 07870267447

Ysgol Sul i'r plant a phobl ifanc (gan gynnwys dosbarth celf, a gwrando ar gerddoriaeth clasurol) am 2.00p.m. bob Sul yn y festri.

Gemau snwcer, ping–pong a hociaer i ddilyn am 3.00p.m.

Bob nos Lun a nos Fercher am 7.30 p.m.: cadw'n heini yn y festri. Croeso i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Ty'n Llan Nant Peris

Cinio dydd Sul a Byrbrydau

Bwydydd Cymreig

Jim ac Anne Cumberton **(01286) 870 284**

Croeso cynnes bob amser

Dyma rai o blant Ysgol Gwaun Gynfi gyda'r bocsus y maent wedi eu paratoi ar gyfer ymgyrch 'Operation Christmas Child'. Casglwyd tua 70 o focsus eto eleni. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TREFN NADOLIG Y PENTREF.

Canu Carolau. Nos Wener, 19 Rhagfyr am 7.00 yr hwyr o amgylch y Goeden Nadolig (yng Nghanolfan y Capel pe bai tywydd garw!) hefo Seindorf Iau Llanrug. Cawl i bawb. Dewch i ganu...

Gwasanaeth Nadolig. Dydd Sul, 21 Rhagfyr am 5.30 y.h. yn Y Capel. Eitemau gan yr Ysgol Sul.

Parti'r Plant. Nos Lun, 22 Rhagfyr am 5.30 y.h. yng Nghanolfan y Capel. Gwisg ffansi, disgo, sosej a tships a Siôn Corn.

Diwrnod Nadolig. 25 Rhagfyr. Gŵyl yr Iesu, Gŵyl i Bawb.

PWYLLGOR CODI ARIAN CANOLFAN Y CAPEL. Unwaith eto mae gan y pentref a'r cylch yr her o godi £3,000 ym 2004, er mwyn talu rhan o'n benthyciad yn ôl. Felly, bydd cyfarfod agored i bawb am 7.30 y.h. nos Iau, 22 Ionawr, yng nghanolfan y Capel i drafod syniadau a chynllunio gweithgareddau. Bydd crynodeb o'r ymdrechion hyd yma i'w cael. Fodd bynnag, bydd angen syniadau newydd i leihau'r baich ar yr ychydig!

FFAIR NADOLIG Y CAPEL. Cynhaliwyd noson lwyddiannus ar 4 Rhagfyr. Enillwyd raffl y dyddiadau gan Einir Wyn (£50. 13/2), B. Jenkin Davis (£25. 13/6), Sara Lodge (£10. 15/7), Helen Jones (£10. 13/10) a Tracy Jones (£5. 26/11).

Clwb Pêl-droed Norwich oedd piau'r bêl, gyda Gronw yn enillydd. Pwysau'r gacen oedd 3 phwys, 1 owns a hanner, gyda Yvonne, 7 Glandwr yn gywir.

Enillwyr Raffl y Gegin oedd Sasha (10. Hamper), Mandy (293. Champagne), Dafydd Morris (243. Cinio ym Meifod), Sasha, (13. Bisgedi), Lis (166. Sieri), Aled Vaughan (287. gwin), a Betty (140. gwydrau).

Fflur oedd enw'r ddol, gyda Ifor yn gywir.

Enillwyr Raffl y Drws oedd Bethan Iwan (316. fram), Yvonne (311. gwin), Huw Ceiriog (426. bocs o ffrwythau), Dilys (321. siocledi), Dafydd Morris (456. gwin), Yvonne (431. bisgedi), Hannah (406. bisgedi), Yvonne (271. voucher), Harriet (471. coluro), Angela (276. gêm) a Dilys (286. tocyn cig).

Diolch i'r trefnwyr, diolch am y rhoddion a diolch i'r prynwyr. Cafwyd elw o £375 tuag at gostau cynnal y Capel.

PWYLLGOR DEFNYDDWYR CANOLFAN Y CAPEL. Bydd cyfarfod o'r pwyllgor am 8.00 y.h. nos Iau, 8 Ionawr 2004.

CYDYMDEIMLAD. Yn gynnar ym mis Rhagfyr bu farw Owain Bebb, tad Gwenno Bebb. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teulu i gyd.

SWYDD NEWYDD. Mae Jayne Lloyd wedi dechrau ar ei swydd newydd fel Trefnydd Ras yr Wyddfa, Llanberis.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol ym mis Ionawr:

4: 2.00 Parch Ronald Williams (Salem);
11: 11.00 Ysgol Sul;
18: 11.00 Ysgol Sul; 2.00 Parch John Pritchard (Llanberis);
25: 11.00 Ysgol Sul.

Llywydd y Mis – ar gyfer problemau a llogi Canolfan y Capel yw Clive James, Hafan (677438). Pwyllgor gwaith am 9.00 y.h. nos Iau, 8 Ionawr.

LLONGYFARCHIADAU. Mae Hannah Hughes, Llyngele, wedi ennill Medal Aur mewn Jiwdo yn y Pencampwriaethau Prydeinig.

CLWB MERCHED. Ar drothwy Gŵyl yr Adfent ar nos Iau, 27 Tachwedd cafwyd noson Nadoligaidd ar ffurf gweithdy celf, dan arweiniad Rhiannon Roberts. Enillwyd y llyfr coginio gan Olga Evison, a Dr Helen a Mair Parry fu'n paratoi'r te.

Trefnwyd i aelodau'r clwb gael stondin yn Ffair Nadolig y pentref ar 4 Rhagfyr, a'r elw i fynd tuag at y Ganolfan.

Ar ôl dathlu'r Nadolig ym Melin Seiont ar 11 Rhagfyr, byddwn yn ail-ymgynnull ar 29 Ionawr am 8.00 pm gyda noson o *Aromatherapy*.

DYMUNWN Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb sy'n byw yng Nghaeathro a'n darllenwyr oddi cartref.

Torri Gwair

Mae Eglwys y Bedyddwyr Penuel, Bangor yn gwahodd tendrau ar gyfer torri gwair a chynnal y tir o amgylch y capel at y tymor nesaf.

Am fwy o fanylion ffoniwch **01286 871 654** (ar ôl 6y.h.)

DRAENOG

Stori Bigog!

Os bu i rai ohonoch weld gŵr ifanc o Lanberis yn dinoethi ei ben ôl yn gyhoeddus, peidiwch a phoeni, mae gan Draenog esboniad i'r cyfan. Cael ei bigo wnaeth y truan gan wenyn yn y man mwya 'delicet' – a hynny bump o weithiau. Stori sy'n ddigon i yrru CHIVERS MAWR i lawr y'ch asgwrn cefn chi, yntê?

DRAENOG

Trafferth y Zip

Canwr wedi ei eni a'i fagu yn y fro yn chwarae golff gydag actor a briododd ferch wedi ei geni a'i magu yn y fro. Y canwr yn methu'n glir a dal ei ddŵr ac yn neidio i'r eithin trwchus i ymgeleddu. Daeth y canwr allan wedi torri ei zip – sefyllfa a allasai brofi'n beryglus pan yn dreifio! Erbyn cyrraedd y clwb roedd yr actor wedi llunio englyn i gofnodi'r achlysur, a dyma fo:

Di-zip oedd byd hen oesau – caet bi***d
Wrth basio drwy'r caeau;
A'r hen g*d yn saff wrth gau,
I ti a mi, gwell botymau!

O.N. a Rhybudd: Peidied y parchusaf rai feiddio llenwi'r bylchau drwy geisio darganfod y cynganeddion cudd! Does dim gwobr i'w chael!

Cyfarchion Nadolig Caeathro

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

MODURDY PLAS BACH CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GAREJ GWALIA CAEATHRO
GWASANAETH TORRI LAWR 24 AWR
M.O.T. ★ TRWSIO CEIR
Ffôn 673096
HEFYD EIN SIOPAU YNG NGHAEATHRO, LLANRUG a BETHESDA
LONDIS
Ar agor 7.00 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayyb

Un funud fach

BREUDDWYD

Dwi'n ado peidio crybwyll pêl-droed y mis nesaf! Ond mae'n rhaid i mi gael gwneud hynny y tro hwn eto am fod cwta fis wedi rhoi gwedd wahanol iawn ar bethau. Y tro diwethaf soniais wrthych am y siom o weld tîm pêl-droed Cymru yn methu cyrraedd rowndiau terfynol Euro 2004 ac am y rheidrwydd i ailafael yn y freuddwyd ar gyfer Cwpan y Byd 2006. Wel, mae gen i freuddwyd a hanner erbyn hyn: bod Cymru'n cyrraedd y rowndiau terfynol, ac yn gwneud hynny trwy guro Lloegr yr un pryd! Be di'r ots am Euro 2004? Byddai gwireddu'r freuddwyd newydd hon yn llwyr ddileu yr holl siomedigaethau a gafwyd trwy law Joe Jordan a chic gosb Paul Bodin a gôl Vadim Evseev. Diolch i FIFA am roi cyfle i ni gyrraedd y rowndiau terfynol y ffordd orau posib.

Mae'r freuddwyd newydd yn rhoi'r hawl i mi ddyheu am weld Lloegr yn colli gemau heb deimlo unrhyw fath o euogrwydd am y peth. Mae'n gas gen i weld Lloegr yn ennill dim. Ydw, dwi'n falch o weld y Saeson yn colli. Ond rhaid i mi hefyd gyfaddef fy mod weithiau'n teimlo'n euog am ddymuno drwg i gymydog ac am lawenhau yn ei fethiannau. Bosib nad oes yna ddim byd anrhydeddus i Gymro lawenhau yng nghwymp y Sais, ond mae yna lot o bleser yn y peth! Ond y tro hwn fydd dim rhaid teimlo'n euog o gwbl. Bydd pob ergyd i Loegr yn hwb i obeithion Cymru, a chawn ddweud mai dathlu'r gobaith hwnnw fyddwn ni yn hytrach nag ymfalchio ym methiannau'r Saeson!

Ond os nad ydym ni bob amser yn gallu dymuno'n dda i'n gilydd, diolchwn ar Ŵyl y Nadolig bod Duw wedi gwneud hynny. A'r rhyfeddod mawr yw ei fod wedi dymuno'n dda i ni tra roeddem yn elynion iddo. Gwyddai Duw ein bod wedi pechu yn ei erbyn a'n bod felly'n haeddu cael ein gwrthod ganddo. Ond doedd hynny'n dod â dim pleser o gwbl iddo Ef. Doedd Duw ddim yn ymfalchio yn ein methiannau a'n helbulon ni. Mynnodd Duw drefnu ffordd i'w elynion gael eu cymodi ag ef ei hun. Mynnodd eu caru gymaint nes iddo anfon ei Fab Iesu i'r byd i farw ar groes er mwyn trefnu'r cymod hwnnw. Dyna beth yw dymuno'n dda! Er gwaetha'n pechodau mae Duw wedi tosturio wrthym, ac yn cynnig ein gwneud yn bobl iddo'i hun. Dymuniad dwfn calon fawr Duw yw bod pawb ohonom yn dod i edifarhau ac i gredu yn yr Arglwydd Iesu, a thrwy hynny'n cael eu hachub.

A thrwy ras dymunwn ninnau, i gyfaill a gelyn, bob bendith a chysur dros y Nadolig a thrwy'r flwyddyn newydd.

JOHN PRITCHARD

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS

Bu'r Côr yn diddanu cyn-weithwyr yr Adran Iechyd, Meddygon, Gweinyddion, a Bydwreigion yng Ngwesty Ty'n y Coed, Capel Curig ar nos Wener, 28 Tachwedd.

Mae'r Côr yn dymuno'r gorau i Ifan Bryn Roberts, wedi iddo drosglwyddo'i dalentau o Gôr Dyffryn Peris i Gôr y Traeth, sydd dan arweiniad ei ferch, Annette Bryn Parri.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Doris (Huw Bara) Williams, ddiolch o galon am y cardiau, yr anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed ar 19 Tachwedd.

DYMUNA Gwynfryn Thomas, Stryd Rock Terrace, ddiolch o galon am y cardiau, rhoddion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra roedd yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i Feddygfa Llanberis.

YSGOL FEITHRIN. Bu ymweliad Siôn Corn a'i Groto, tu mewn i Mynydd Gwefru, yn llwyddiant mawr eto'r flwyddyn hon.

Bydd elw'r Groto yn mynd i'r Ysgol Feithrin.

Dymuna'r trefnwyr ddiolch am y cymorth a dderbyniwyd gan Fred Jacks a Pat yn ystod adeiladu'r Groto, ac i'r Mynydd Gwefru am gael cynnal yr achlysur yno.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd gwasanaeth o garolau a llithoedd yn Eglwys Sant Gabriel, nos Lun, 1 Rhagfyr. Darllenwyd y llithoedd a'r gweddïau gan yr aelodau a rhoddodd ein Curad, Vittoria Hancock y fendith. Yr organydd oedd Mrs Heulwen Parry. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd lluniaeth yn yr ysgol gymuned. Trafodwyd rhai materion gan Mrs Dorothy Jones. Rhoddwyd y raffls gan rai o'r aelodau ac fe'u henillwyd gan Mrs Dorothy Jones, Mrs Gwen Owen a'r Parch Vittoria Hancock. Diolchwyd i bawb gan Mrs Enid Taylor. Terfynwyd y noson trwy adrodd y Gras.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Ffion, merch fach Alison a Ken, Dôl Afon, ar ôl syrthio ac anafu ei hysgwydd.

DIOLCH. Dymuna Wyn Rowlands, Glanrafon ddiolch i bawb am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Whiston, Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr.

CAPEL TABERNACL
Gwasanaeth Carolau
yng nghwmni
Côr Waunfawr
nos Sul, 21 Rhagfyr
am 6.30 o'r gloch
Tocyn £3.00
Yr elw rhwng Tabernacl a'r Côr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

CD Newydd gan grythores o Gwm-y-glo

Nid y tylluanod a glywir yng Nghwm-y-glo y Nadolig hwn ond llais hynafol y crwth Cymreig. Mae Cass Meurig, un o drigolion y Cwm, newydd ryddhau y recordiad cyntaf yn y byd o gerddoriaeth ar gyfer yr hen offeryn traddodiadol.

I'r rhai ohonoch nad ydynt yn siŵr iawn beth yw'r crwth, offeryn llinynnol hirsgwar ydyw, gyda chwech o dannau sy'n cael eu canu gyda bwa. Roedd yn boblogaidd iawn yn y canol oesoedd ond aeth allan o ffasiwn tua dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond mae 'na ddiddordeb newydd heddiw yn yr hen offeryn a bellach mae criw bach o bobl yn canu ac yn gwneud crythau.

Mae Cass Meurig yn adnabyddus ym myd cerddoriaeth werin am ganu'r ffidil gyda'r bandiau Pigyn Clust a Fernhill. 'Y Crwth' ydy ei CD gyntaf, ar label fyd-enwog Fflach:tradd, ac fel mae'r teitl yn awgrymu, llais y crwth sydd i'w glywed drwy gydol yr albwm. 'Y crwth hwn, croyw a thyner', meddai'r bardd, a dyna ddisgrifiad digon addas o sŵn yr offeryn. Mae cerddoriaeth Cass yn treiddio'n ddwfn i mewn i'r traddodiad cerddorol Cymreig, gan gynnwys hen alawon traddodiadol a rhai cyfansoddiadau newydd yn ogystal. Mae sŵn cyfoethog y tannau yn creu awyrgylch swynol, sydd yn mynd â chi ymhell yn ôl i fyd sain Cymru'r canol oesoedd.

Pa le gwell i glywed Cass yn chwarae felly, nag eglwys hynafol Nant Peris? Bydd Cass Meurig yn perfformio yno ar nos Wener, 9 Ionawr am 7.30 y.h. Yn ymuno â hi bydd Pigyn Clust, fydd yn perfformio rhaglen o hen garolau Plygain. Tocynnau ar gael gan Ann Cumberton yn y Vaynol Arms ar (01286) 870284.

Mae Cass hefyd yn rhedeg clwb ffidil yn yr ysgol yng Nghwm-y-glo, gyda Nial Cain, y gwneuthurwr ffidlau o Ddinorwig. Ers mis Ebrill maent yn cynnig gwersi ffidil i ddechreuwyr pob nos Fawrth am 5.45 yn nhymor yr ysgol. Gan fod y clwb wedi bod yn dipyn o lwyddiant, maent yn bwriadu cychwyn gwersi i ffidlwyr ychydig mwy profiadol, sydd eisiau gwella'u sgiliau chwarae cerddoriaeth werin, yn ogystal â dechreuwyr. Does dim rhaid i chi fedru darllen cerddoriaeth, na hyd yn oed fod yn berchen ffidil, ac mae 'na groeso i bawb. Mwy o fanylion gan Cass ar (01286) 871042, neu gweler www.cassmeurig.com

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Mary Madog Jones, 35 Bro Rhos a gynt o 14 Cremlyn, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri, ac yn enwedig ar ôl dod gartref.

Hefyd dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a'i holl gyfeillion, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

DYMUNA Mrs Annie Williams, Tŷ Newydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni. Nadolig Llawen bawb.

DIOLCH. Dymuna Aled a Llinos, Fachell, Llanddeiniolen ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, anrhegion, galwadau ffôn a dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Elis Ifan.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd cinio Nadolig y clwb yn y Bedol, dydd Mawrth, 2 Rhagfyr. Roedd pawb wedi mwynhau ac roedd y bwyd yn ardderchog, gyda diolch i Mr a Mrs Johnson a Michelle.

Dymuna'r Clwb ddiolch i'r Clwb Pêl-droed am eu caredigrwydd eto'r flwyddyn hon, hefyd Tesco Caernarfon; Ceir Cymru; Treflan Stores; Dylan Hughes, y Post; Gors Bach a'r Cynghorydd H.P. Hughes.

Diolchodd y Parch Dafydd Hughes am Glwb diddorol a hapus.

Dymuna'r Llywydd, y Parch G. Williams; yr Is-Lywydd, Goronwy Jones; y Trysorydd, Alice Jones a'r Ysgrifennydd, Nerys W. Owen, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r clwb.

CYNGERDD. Yn dilyn llwyddiant ysgubol Eisteddfod Bethel, penderfynodd Pwyllgor yr Eisteddfod gynnal noson o adloniant yn seiliedig ar bigion yr Eisteddfod. Cynhelir y Cyngerdd nos Wener, 16 Ionawr 2004 am 7.00 o'r gloch yn y Neuadd Goffa. Y pris mynediad ydi £2 (mynediad am ddim i blant). Arweinydd y noson fydd Maldwyn Johyn. Dewch i gefnogi ein doniau lleol ac i fwynhau noson o hwyl.

CLWB 100 Y CLWB PÊL-DROED. Enillwyr gwobrau Tachwedd oedd: £100 – Mary Williams, Bethel; £50 – Alice Mary Jones, Bethel; £25: Gwyn Griffith, Bethel; £25 – Dewi Rowlands, Bethel.

I ymuno neu am ragor o wybodaeth cysyllter â Tecwyn Hughes, 4 Y Ddôl, Bethel (01248 671469.

CYHOEDDI AIL ARGRAFFIAD *'WHAT I SAW AT BETHESDA'*

Union gan mlynedd wedi ei gyhoeddi gyntaf cyhoeddir ail argraffiad o'r llyfr *What I Saw at Bethesda*, gan Charles Sheridan Jones, gyda Rhagymadrodd manwl gan J. Elwyn Hughes, Bryn Ogwen.

Gohebydd ifanc saith ar hugain oed o Lundain oedd Charles Sheridan pan anfonwyd ef i Fethesda gan ei bapur newydd, y *Daily News*, i ysgrifennu am amgylchiadau truenus chwarelwyr Bethesda a'u teuluoedd yn ystod Stric Fawr y Penrhyn. Yn hytrach na bod yn sylwebydd diduedd, ochrodd Sheridan Jones gyda'r streicwyr a chyflwyno'u hachos yn gadarn a pherswadiol. Disgrifiodd y dioddef a'r cyni a welai o'i gwmpas, nododd pam yr oedd y chwarelwyr yn gwrthryfela, disgrifiodd y blynyddoedd anodd dan fawd yr Arglwydd Penrhyn, a mynnodd holi pam nad oedd Llywodraeth y dydd yn ymyrryd i ddod â'r anghydfod i ben. Casglodd ei erthyglau ynghyd ac, yn 1903, cyhoeddodd nhw'n llyfr dan y teitl *What I Saw at Bethesda* – llyfr sydd allan o brint ers blynyddoedd lawer ac sydd mor eithriadol o brin fel nad oes fawr neb yn gwybod amdano erbyn heddiw.

Bydd *What I Saw at Bethesda*, a ddisrifiwyd fel 'y llyfr gorau ar yr anghydfod' yn sicr o apelio at bawb sydd â diddordeb yn hanes Streic Fawr y Penrhyn a brwydr fawr y chwarelwyr yn erbyn yr Arglwydd Penrhyn.

Cadeirio'r Golygydd Chwaraeon

Llongyfarchiadau i Richard Lloyd Jones (Bethel) ar ennill cadair Eisteddfod Gadeiriol Talwrn, Ynys Môn gyda'i awdl 'Rhyddid'.

Y beirniad oedd y Prifardd John Gruffudd Jones, a ddywedodd bod safon y gystadleuaeth yn ardderchog ac y gallai fod wedi cadeirio pump o'r un ar ddeg ymgeisydd. Felly go dda, Richard.



Cyfarchion Nadolig BETHEL

CYFLENWYR PORTHIANT
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO
Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
01248 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Ellis Wyn, Iola
Holl staff a thrigolion
Cartref Preswyl
SANT TEILO
BETHEL
Ffôn: 01248 670353

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
R. L. DAVIES
Coed Bolyn Mawr, Bethel
Offer i'w logi ar gyfer:
- **tyllu *footings***
- **clirio gerddi**
- **neu unrhyw waith clirio safleoedd**

Hefyd: **Lle i wagio sbwriel *inert* a *Hardcore* ar werth**
Ffoniwch am fanylion
(01248) 671300
neu **(07775) 638620**

GEFNOGWCH FUSNESAU LEOL
CEIR CYMRU
Bethel (01248) 670451
(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)
Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 13 blynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.
Dymuniadau gorau ar gyfer 2004 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH
ANN A BILLY HUGHES
A STAFF
SIOP TREFLYN
BETHEL
Ffôn: (01248) 670106

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

CHWILOTA

MANION DAN Y GOEDEN

GAN MAI cwta bythefnos o amser sydd rhwng cyhoeddi rhifyn Rhagfyr a'r rhifyn hwn o'r 'Eco', a'r ffaith fod y mwyafrif helaeth ohonoch yn prysur baratoi am y Nadolig, prin fu'r ymatebion i golofn y mis diwethaf. Felly, does dim 'prif stori' y mis hwn, ond llawer o friwsion, a phob un ohonynt, gobeithio, yn eithaf blasus, ac yn ddigon i rai ohonoch fynd ati i chwilota am fwy o wybodaeth yn y flwyddyn newydd.

Merched y Motobeics

Ar ddechrau eleni, ac mewn rhifynnau diweddarach, cafwyd cryn sôn am ferched o'r fro yn reidio motobeics. Cais am wybodaeth ynglŷn â Kate Jones, Ceunant, oedd y gwreiddiol, ond ni chafwyd unrhyw wybodaeth amdani. Yn hytrach, bu ymateb brwd gan nifer o'r darllenwyr i hanes Kate Hughes, Clwt y Bont, athrawes yn ysgol Dolbadarn, a oedd yn reidio motobeic i'w gwaith yn ddyddiol.

Y mis hwn cawn hanes am ferch arall o'r fro a fu'n reidio motobeic i'w gwaith yn ystod 1920'au'r ganrif ddiwethaf. Geraint Huws Roberts o Fangor sy'n anfon y wybodaeth (a'r llun) am ei ddiweddar fam, a oedd yn athrawes yn Rhosgadfan. 'Roedd mam hefyd yn reidio motobeic. Roedd yn dysgu yn Rhosgadfan ond, pan fu farw ei mam yn 1925, gorfu iddi ddod adre i gadw tŷ i'w thad a'i brawd a'i chwaer. Doedd dim modd cyrraedd Rhosgadfan erbyn naw, felly doedd dim i'w wneud ond prynu motobeic. Roedd hi'n cael ei hadnabod fel "Miss Roberts Motobeic", a chlywais lawer yn dweud y byddent yn gwybod yr amser gan yr arferai fynd heibio ar y motobeic yr un amser bob diwrnod ar ei ffordd i Rosgadfan. Gwisgai lifrai reidiwr go iawn – legins a helmed ledr.' Mae Geraint yn credu mai 'Royal Enfield' oedd y motobeic. Oes arbenigwr ar fotobeics yn medru cadarnhau hynny o'r llun? Cof ganddo hefyd am lampau carbeid yn cael eu cadw yn yr atic yn ei gartref, Park Villa, Llanrug. Tybed oes rhai o gyn-ddisgyblion ysgol Rhosgadfan yn darllen yr *Eco*, a sawl un ohonynt sy'n cofio 'Miss Roberts Motobeic'? Cysylltwch erbyn rhifyn Chwefror.

Bwydydd ers talwm

Mae'r ymatebion i'r hanes am greision brecwast *Sunny Jim* yn parhau. Y tro hwn, daeth llythyr gan Bob Vale o Lanrhaeadr, Dinbych. Mae'n cofio'r cymeriad 'Sunny Jim', 'Y cymeriad od mewn gwasgod liwgar yn brasgamu ar draws wyneb y bocs.' Cof ganddo hefyd am greision Hecker Mo Mills a'r Post Toasties, creision mawr blasus. Mewn pecyn melyn a glas deuai Clark's Cream Barley, rhai tebyg i'r *Puffed Wheat* presennol, ond y rhai gorau gan blant ei gyfnod ef oedd Farmer's Glory, creision gwenith – nid am eu bod yn fwy blasus nac unrhyw un o'r lleill, ond am fod anifeiliaid bach plwm i'w cael mewn pecyn oddi mewn. 'Defaid, moch, lloi, ci defaid – yr holl fferm ar gael, o dipyn i beth, wrth gwrs!' Ie, plwm mewn pecyn bwyd! Fel mae'r oes wedi newid.

Carthen Pwllheli

Daeth galwad ffôn ddiwrnod neu ddau cyn i'r golofn gael ei hanfon i'r wasg, yn cadarnhau fod carthen arall fel yr un a ddarluniwyd yn y rhifyn diwethaf, ar gadw yng Nghaerdydd, ond iddi ddod yn wreiddiol o Ddeiniolen. Soniwyd hefyd fel y bu sôn am y carthenni ar raglen deledu *Wedi Saith* yn ystod yr wythnosau a aeth heibio, ac mai dim ond wyth o garthenni cyffelyb a wnaethpwyd erioed. Credir fod tair ohonynt ym Môn. Mae un ym Mrynrefail, un yng Nghaernarfon ac un arall bellach yng Nghaerdydd (o Ddeiniolen). Gwn fod yr un gychwynnodd yr holl chwilota ym Mhenfro. Felly, mae un ar ôl yn rhywle. Dyna dasg i'w dilyn yn ystod y flwyddyn i ddod!

Rhamant Bro

Soniais o'r blaen am gylchgrawn *Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog*. Cefais gopi rhif 22, (Gaeaf 2003) yn ddiweddar, ac y mae un o'r erthyglau'n berthnasol i ardal yr *Eco*. Yr awdur yw William Jones, Glan-y-Pwll, Blaenau Ffestiniog, ac y mae'n sôn am Rhiwddolion, y pentref diarffordd hwnnw uwchben Betws y Coed. Yno yr aeth Griffith Hugh Jones (Gutyn Arfon) yn ysgolfeistr. Fe'i ganwyd yn y Tŷ Du, Llanberis, yn frawd i Dewi Arfon. Bu eu tad yn arwain y canu yn Capel Coch, Llanberis am 60 mlynedd, a dewiswyd y mab i'w gynorthwyo pan oedd yn llencyn pedair ar ddeg oed. Cafodd addysg gerddorol yn nosbarthiadau Ieuan Gwyllt.

Dechreuodd ei yrfa yn ddisgybl athro yn ysgol Dolbadarn, cyn symud i fod yn athro cynorthwyol i ysgol Frutanaidd Aberystwyth. Yn 1869 symudodd yn ôl i'r gogledd, fel athro yn ysgol elfennol Rhiwddolion. Dyna'r flwyddyn y bu ei frawd, Dewi Arfon farw, a chyfansoddodd yr emyn dôn adnabyddus 'Llef' er coffadwriaeth amdano. Cafodd ei chanu am y tro cyntaf mewn cymanfa yn Nolwyddelen. Dywedir mai Gutyn Arfon oedd y cyntaf yn yr hen Sir Gaernarfon i ddod ag offeryn cerdd i'w defnyddio mewn capel, ac mai yn Rhiwddolion y bu hynny.

Bu farw yn 1919 ac fe'i claddwyd ym mynwent Nant Peris.

Llyfrau'r Nadolig

Un o'r llyfrau sydd wedi ymddangos ddechrau Rhagfyr yw *Achau rhai o deuluoedd hen Siroedd Caernarfon, Meirionnydd a Threfaldwyn*. Argraffwyd gan Wasg y Lolfa, ond cyhoeddwyd yn breifat gan yr awdur, yr Athro T. Ceiri Griffith. Dyma ddilyniant teilwng i *Achau ac ewyllysiau Teuluoedd De Sir Gaernarfon*, a gyhoeddwyd ganddo yn 1989. I'r rhai sydd â changhennau o'u teulu yn deillio o'r ardaloedd hyn, dyma chwarel o wybodaeth achyddol y gellir cloddio ynddi am hydoedd – a darganfod rhywbeth newydd yn gyson.

Ac oherwydd fod y gyfrol gyntaf yn trafod achau teuluoedd ardal Betws Garmon a'r Rhyd-ddu, mae'r ychwanegiadau yn yr ail gyfrol yn tywallt trosodd i fro'r *Eco*, a cheir nifer o gartau achau rhai o deuluoedd y fro hon, megis teulu Bwlch y Groes, Clegir, teulu Rhiwgoch, Deiniolen, teulu'r Helfa Fawr, Gwauncwmbrwynog a theulu Bron Eryri, Waunfawr.

Llyfr arall sy'n croniclo hanesion gannoedd o filltiroedd i ffwrdd a chanrif a hanner bron yn ôl yw *Llwch Cenhedloedd* gan Jerry Hunter, sy'n adrodd hanes y Cymry a'r Rhyfel Cartref yn America, ac mae llythyrau milwr ifanc o'r enw John Griffith Jones o deulu Bryn Fedwen, Llanrug, yn rhan o'r cyswllt lleol.

Cyrsiau yn Ionawr...

I'r rhai ohonoch sy'n dilyn y golofn hon, dyma raghysbysiad o ddau gwrs a gynhelir gan Goleg Menai fis Ionawr, y naill yn Neiniolen a'r llall yng Nghaernarfon. Ar nosweithiau Iau, am ddeg wythnos, gan gychwyn ar 22 Ionawr, bydd Cwrs Hanes Lleol yn cychwyn yn Nhŷ Elidir, Deiniolen. Ac ar nos Lun, 26 Ionawr bydd cwrs pum wythnos i Ddechreuwyr ar Hel Achau yn cychwyn ar safle Coleg Menai ar y Maes yng Nghaernarfon. Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r ddau gwrs, cysylltwch â Choleg Menai yng Nghaernarfon.

A dyna'r cyfan am flwyddyn arall. Gyda diolch i bawb a fu mewn cysylltiad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio i drafod, i holi neu i gynnig gwybodaeth am agweddau o hanes ein bro. Dymuniadau gorau i chwi i gyd am wyliau dedwydd, a chofiwch gysylltu cyn diwedd Ionawr. Anfonwch unrhyw ohebiaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon.
(Ffôn: 01286 673515).

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN
Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli
cyngor ar bopeth
Rydym angen
GWIRFODDOLWYR
Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:
(01286) 677013

Brian a Rita Henderson

SWYDDFA'R POST

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR Ffôn 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid – 'bulk' a rhydd – y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau
- Holl wasanaethau arferol Swyddfa'r Post

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lwcus

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i holl gyfeillion yr Antur ym mro'r Eco

Antur Waunfawr

ANTUR WAUNFAWR

01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

Mae

LLEUFER, NELMA A TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650 291

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

★ O LEIAF 60 O WELYAU MEWN STOC
★ 5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
★ 40 O '3-PIECE SUITES'

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
☎ FFONIWCH ☎
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER: WAUNFAWR (01286) 650552

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER TŶ A GARDD

CAERNARFON
Ffôn: 676506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH BAWB YN NHAFARN Y

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Dewch gyda'r trên stêm o Gaernarfon ac aros

AM GINIO DA!

Gadael Caernarfon 10.30, cyrraedd Waunfawr 11.05
Gadael Waunfawr 12.20 neu 15.20,
cyrraedd Caernarfon 13.00 neu 16.00
Ffoniwch y dafarn i archebu eich bwyd ymlaen llaw

A 'does dim rhaid dod ar y trên!
Cofiwch... **bob dydd Sul**...
cinio traddodiadol £5.50
Bwyd cartref blasus o gynnyrch lleol

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd: £40: Mrs Nan Huws Roberts, Bodrida; £25: Mr Ronald Williams, 18 Bro Waen; £10: Mr P. Greasley, 7 Pant Waen.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd nos Lun, 12 Ionawr yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch pan fydd Dr Berwyn Owen yn trafod gwahanol foddion a phils o bob math. Mae canmol mawr ymhob ardal y bu Dr Owen yn rhoi y ddarlith hon, felly edrychir ymlaen yn fawr i'w glywed. Llywyddir gan Gwilym O. Williams.

Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, cafwyd darlith hynod o ddiddorol gan Dyfed Evans ar 'Bob Owen, Croesor', a llywyddwyd gan Rol Williams.

PRIODAS. Dau deulu o'r Waun presennol yn uno â dau deulu o Waun y gorffennol.

Yng Nghapel Seilo, Caernarfon, unwyd Manon Evans, merch Emyr a Rhian, Arfryn, mewn priodas â Vincent Oliver, o Gaernarfon. Mae Vincent yn fab i Ian Oliver a fu'n byw yn y Waun.

Dymunwn yn dda i'r pâr ifanc yn eu bywyd priodasol ac yn eu cartref yng Nghaernarfon.

DYMUNWN yn dda i Kevin Davies, Hafan, ar ei ddyweddïad ag Einir Jones o'r Bontnewydd. Magwyd tad Einir, Gwilym Morris (Mois i ni) yma yn y Waun.

PRIODAS ARIAN. Llongyfarchiadau i Susan ac Egryn Roberts, Cynlas a fu'n dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau i Iwan Parry, Bryn Llywelyn ar gyrraedd ei benblwydd yn 18 oed, ac i Sioned Jones, Hafod-y-Rhug ar gyrraedd ei 21 oed.

Dymunwn yn dda i'r ddau ohonoch i'r dyfodol.

ANFONWN ein cofion at Mr Evan Hughes, sydd wedi cael dod i Ysbyty Eryri o Ysbyty Gwynedd. Hefyd ar Mrs Mary Davies, Bryn Eithin sydd yn Ysbyty Eryri am gyfnod.

ANFFAWD. Daeth Mrs Catherine Williams adref o gartref preswyl yn Llanberis, ond yn anffodus fe syrthiodd yn ei chartref ac mae ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Anfonwn ein cofion atoch i gyd ac hefyd at y rhai sy'n gaeth i'w cartref ac mewn cartref preswyl.

DYMUNWN wellhad buan i Mrs Beverley Richards, Stad Tŷ Hen, wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty.

DYMUNWN wellhad buan i Dewi Owen, Glyn Awel yntau – mae wedi torri ei goes wrth chwarae pêl-droed.

CYDYMDEIMLO.

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Treforfan yn eu profedigaeth o golli brawd Anne yn frawychus o sydyn.

APÊL. Ni fydd yn plygu'r Eco nesaf ddaw o'r wasg. Dowch i'n helpu gyda'r gwaith yn festri Capel Croesywaun – o tua 5 o'r gloch ymlaen.

YSGOL WAUNFAWR.

Rydym yng nghanol bwrlwm a phrysurdeb y Nadolig. Mae plant Adran y Babanod wedi bod yn ddiwyd yn addurno moch coed, a gellir eu gweld a'u prynu ym Meithrinfa Fron Goch. Hoffwn ddiolch i blant yr Adran Iau a fentrodd yn y gwynt a'r glaw i ganu carolau yn y Noson Fins Peis yn yr Antur ar 28 Tachwedd. Da iawn chi, roedd pawb wedi mwynhau eich clywed yn canu.

Diolch hefyd i holl blant yr ysgol a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Bentref. Bu'n eisteddfod lwyddiannus, gyda dipyn mwy o gystadlu ym mlynyddoedd 3 a 4.

Bydd Anti Margaret ac Anti Sylvia yn paratoi cinio Nadolig yn yr ysgol ddydd Mawrth, 9 Rhagfyr. Bydd cystadleuaeth het Nadolig, ymweliad gan Siôn Corn a disgo i ddilyn.

Cynhelir ein cyngerdd Nadolig eleni yn y Ganolfan ar ddydd Mercher, 17 Rhagfyr am 1.30 y pnawn ac am 6.30 y nos. Gellir archebu tocynnau o'r ysgol am £1.50 yr un. Croeso cynnes i bawb.

Rydym yn gwerthu Calendrau 2004 sy'n cynnwys lluniau gan y plant fel rhan o ymgyrch gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon i godi arian i'r ysgol. Gallwch brynu Calendr unai yn siop Brian neu o'r ysgol am £4.00. Bydd £1.50 o'r elw a wneir ar bob calendr yn mynd tuag at brynu Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i'r Neuadd.

I gloi'r tymor byddwn yn cynnal Disgo Nadolig yn y Ganolfan bnawn dydd Gwener, 19 Rhagfyr, gyda Epitaff a Meinir Gwilym yno i'n diddanu.

Carwn ddymuno Nadolig Llawen iawn i holl ffrindiau'r ysgol. Diolch i chwi am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a boed i 2004 fod yn flwyddyn ddedwydd i bawb.

NOSON MIRI NADOLIG. Ar noson wlyb a gwyntog, daeth Siôn Corn yn gynnar i Antur Waunfawr ar 28 Tachwedd i ddosbarthu anrhegion i'r plant, a hefyd i dderbyn archebion ar gyfer noswyl y Nadolig.

Ar ddechrau'r noson bu plant Ysgol Waunfawr a Band Ieuenctid Llanrug yn diddanu torf anrhydeddus tu allan i'r caffi. Wedi hynny bu nifer yn prynu anrhegion yn siop Bryn Pistyll ac yn mwynhau danteithion yng nghaffi Blas y Waun.

A dyna ni ar ddiwedd blwyddyn arall – Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Steddfod Waunfawr (Mae'r canlyniadau ar dudalen 17)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
WELDPAR
CYMRU WALES
CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720

Mae pawb o'r staff, Gwen, Lesley, a Lucy
SIOP SGLODION Y PENTREF
THE VILLAGE CHIPPY
WAUNFAWR, Ffôn: 650683
yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650235
Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445
OFFER DIFFODD TÂN – masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.

CYFARCHION NADOLIG
WAUNFAWR

ŠKODA
FABIA
Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r staff
MODURDY PANT Y WAEN
WAUNFAWR Ffôn: 650524

A CHOFIWCH HEFYD YR OCTAVIA GWYCH

YSGOL BRYNREFAIL

Glannau Dyfrdwy

Ar Nos Fercher, y chweched ar hugain o Dachwedd aeth oddeutu 100 o ddisgyblion Ysgol Brynrefail ar daith sglefrio i Lannau Dyfrdwy. Cafwyd môr o hwyl a helynt gyda nifer o'r disgyblion yn arddangos sgiliau eithriadol ar yr iâ. Yn anffodus, stori arall oedd sgiliau nifer o'r athrawon! Go brin fod yr un ohonynt yn debyg iawn i Torvill a Dean!! Mwynhaodd y disgyblion weld eu hoff athrawon ar eu cefnau ar lawr yng nghanol glwybaniaeth ac oerni'r rhew. Diolch byth, dim ond mân anafiadau a ddioddefwyd, gyda nifer yn arddangos eu cleisiau fore trannoeth fel prawf o'u dewrder. Yr unig bryder sy'n parhau i'r athrawon yw fod y disgyblion wedi gofyn am daith i sgio nesaf – O mam bach!!!!

Huw a Heledd (nid Torvil & Dean) yn mwynhau'r profiad yng Nglannau Dyfrdwy.

Gala Nofio'r Urdd

Ar noson oer ym mis Tachwedd roedd yr awyrgylch yn danllyd ym Mhwll Nofio Bangor, ble cynhaliwyd Gala Nofio Uwchradd blynyddol yr Urdd. Mae Ysgol Brynrefail bellach yn enwog am lwyddiannau ein disgyblion yn y maes hwn, ac nid oedd eleni'n eithriad. Mewn bwrlwm cystadlu llwyddodd nifer helaeth o unigolion a thimau'r ysgol i ddod i'r brig. Dyma'r canlyniadau:

Ras gymysg unigol Bl.7_8: 1af – Iwan Arwel;

Ras gymysg unigol Bl.9_10: 5ed – Huw Humphreys; 6ed – Sion Derfel;

Ras gymysg unigol Bl.11+: 1af – Eifion Williams; 2il – Sion Humphreys.

Eifion ac Iwan, ein nofwyr o fri.

Ras rydd Bl.7–8: 2il – Alex Lynes;

Ras rydd Bl.9-10: 3ydd – Ifan Jams; 5ed – Huw Humphreys;

Ras rydd Bl.11+: 1af – Eifion Williams; 2il – Sion Humphreys.

Ras froga Bl.7–8: 5ed – Cai Jones;

Ras froga Bl.9-10: 2il – Ifan Jams; 3ydd – Sion Garth Owen;

Ras froga Bl.11+: 1af – Gwion Owen; 2il – Ifan Dafydd Owen.

Ras froga genethod Bl.11+: 1af – Nikki Hill.

Ras gefn Bl.7–8: 2il – Alex Lynes;

Ras gefn Bl.9–10: 5ed – Sion Derfel; 6ed – Rob Williams;

Ras gefn Bl.11+: 1af – Gwion Owen.

Ras pili pala Bl.7–8: 3ydd – Iwan Arwel;

Ras pili pala genethod Bl.11+: 1af – Nikki Hill.

Rasus Cyfnewid Rhydd
Bl.7-8: 2il – Ysgol Brynrefail;
Bl.9-10: 2il – Ysgol Brynrefail;
Bl.11+: 1af – Ysgol Brynrefail.

Rasus Cyfnewid Cymysg
Bl.7-8: 2il – Ysgol Brynrefail;
Bl.9-10: 2il – Ysgol Brynrefail;
Bl.11+: 1af – Ysgol Brynrefail.

Bydd carfan sylweddol felly yn mynd ymlaen i Abertawe fis Ionawr i gynrychioli Eryri yn y Gala Nofio Cenedlaethol. Pob lwc i bawb a chofiwch, bydd mwy o hanesion eu llwyddiannau yn yr Eco bryd hynny!

Profiad Gwaith Blwyddyn 11

Eleni eto bu disgyblion blwyddyn 11 allan mewn lleoliadau gwaith ddechrau mis Hydref. Roedd y mwyafrif wedi eu lleoli'n lleol ond teithiodd rhai i Leeds, Lerpwl a Manceinion. Braf yw cael nodi bod y mwyafrif wedi mwynhau eu hunain ac wedi elwa o'r profiad.

Hoffai'r ysgol ddiolch i holl gyflogwyr yr ardal, ac ymhellach hefyd, am eu cefnogaeth i ddisgyblion Ysgol Brynrefail.

Jess yn gweithio yn 'Surflines' Llanberis.

Ynyr yn cynorthwyo gyda chwmni Dafydd Owen (Trydanwr) Llanberis.



Leigh ar ei ffordd i'w waith yn DMM Llanberis.



Meilyr yn archwilio'r pysgod yn Sŵ Môr, Brynsiencyn.

Eisteddfod Ysgol Brynrefail



Huw a Meinir capteiniaid Eilian.

Capteiniaid y Tŷ Buddugol, Gwyrfai.

Capteiniaid Tŷ Elidir.

Ffair Nadolig Menter Fachwen
Agor Groto yn y Caffi

Mervyn Jones, Morfydd Hughes a Caroline Bishop.

CROESO I BAWB

DRAENOG

Ymgiprus yn Cyprus

Gŵr a gwraig parchus iawn wedi picio i Cyprus am rhyw wylia bach yn ystod y mis. Ar ôl taith hir fe benderfynodd y ddau fynd yn syth i far y gwesty i ymlacio cyn cychwyn am y ciando. Ymhen rhyw awr roedd y gŵr yn ei wely yn rhochian, a hynny cyn meddwl am ddadbacio. Yn sydyn clywodd sgrech,

'BE TI'n neud?' gofynnodd, o weld ei wraig yn brin O WÊN ac yn crynu fel deilen.

'Ma 'na ddyn yn sefyll yn y drws. Dos I FA'Na ato fo – a hela fo o'ma!'

Fel cyn gôl-geidwad, a oedd yn ei ddydd yn hyderus hefo dyrnio'r bêl, aeth y gŵr yn syth am y 'fisitor'. Aeth yn sgarmes. Ond o'r cychwyn sylweddolodd y wraig nad oedd gan ei gŵr obaith gyda'r ymyrrwr gan ei fod ddwywaith ei faint. Ymhen chwinciad chwanan roedd y cyn bêl-droediwr wedi ei lapio ym mreichiau hirion ci wrthwynebwr. Cafodd hwnnw gyfle wedyn i esbonio fod y ddau o Lanbêr wedi tresbasu i'w 'stafell o! A dyna oedd y gwir.

Roedd yr allwedd a dderbyniodd y ddau yn gallu agor unrhyw ddrws yn y gwesty ac roeddynt, yn eu blinder, wedi mynd i'r ystafell anghywir. Er i'r cyfan gael ei setlo ac i'r ddau baffiwr ddod yn ffrindiau, clywyd y wraig yn yngan ar ddiwedd yr wythos,

'Dwi 'di mwynhau fy hun yn fawr – dwi'n meddwl y do' i I FAN'ma eto!'

Ysgyrnygodd y gŵr, 'Tisio BET?'

Nadolig Llawen i ddarllenwyr yr Eco

DRAENOG

Cinio Dydd Sul Wil y Ci

Da' ni wedi clywed yr hen ddywediad sawl tro – 'Dew, ma hwn yn cael bywyd ci.' Wel nid Wil, y ci o Lanrug. Mi gafodd hwn gig oen gwerth £12 i ginio un dydd Sul yn ystod y mis! O weld y cig ar y bwrdd, penderfynodd Wil, yn ôl ei reddf a'i awch, ei lowcio yn y fan a'r lle! Rhyw fis neu ddau yn ôl fe welsoch lun o berchenog y ci yn cysgu'n sownd ar ci drafa'ls i Ffrainc hefo Côr Meibion Bangor. MYFYRio ydoedd bryd hynny – yn ôl yr adroddiad – ond y tro hwn synFYFYRio wnaeth y creadur!

YSGOL BRYNREFAIL

CROESI'R BONT

Stori'r Gadair

HELEDD WYN JONES, Bl. 13

Fues i erioed yn ddamcaniaethwr, ond does gen i ddim help fod gen i ddwy lygad fedrus, dwy glust alluog, a cheg brysur! Byddaf i'n codi o ngwely rhai boreau wedi i mi orffen crogi'r cloc larwm a'i ladd ac eistedd ar ochr fy ngwely yn meddwl,

'Ydw i eisiau mynd i'r ysgol heddiw? – Pa fudd a gaf o fynd? Be ddysgaf? Pwy wneith sylwi mod i ddim yno?'

Wedyn bydd wyneb hyll yr athrawes gofrestru yn ymddangos o fy mlaen yn edrych arnaf gyda'i wyneb sur ac yn mynd drwy'i phethau, 'Pa mor bwysig yw codi yn y bore i ddod i gofrestru ac i wersi yn brydlon'.

'Chi sy'n ceisio am le mewn coleg eleni, nid fi, a mi ddweda i hyn wrtha chi, madam, chymerith yr un coleg na Phrifysgol mohonoch chi gyda'r agwedd yma!

'A be os byddai tân neu argyfwng tebyg yn yr ysgol, a chithau wedi penderfynu peidio dweud wrthym ble 'rydych? Mae yno bethau pwysicach mewn bywyd na phicio i Boots i brynu'r siêd ddiweddara o finlliw Nia Price!'

Ych a fi! Dwi'n gallu ei chlywed hi'n sgyrnygu rwan! Oce, dwi'n deall ei phwynt hi'n iawn, mi ddylwn i fynd i ddweud wrth rywun os dwi'n picio allan i nôl rhywbeth, a gadael tir yr Ysgol, a byddai meddwl fy mod wedi lladd rhywun a aeth i mewn i ysgol sy'n llosgi i chwilio amdanaf yn ddigon i mi wneud amdanaf fy hun. Ond blydi hel, mae 'na ddweud lle da chi'n mynd, ac mae 'na gadw dyddiadur manwl iawn hefyd yn does!'

Bu bron i mi fuddsoddi mewn dyddiadur unwaith a'i gadw fel math o lyfr llog yn llyfrgell yr ysgol i Mrs Cofrestru gael picio yno bob hyn a hyn i ymchwilio pryd es i'r tŷ bach ddiwethaf, pryd nes i disian, neu pa liw dillad isa fyddai'n wisgo'r diwrnod hwnnw! Wir yr, credaf weithiau y byddai dyfodol disglair iawn yn disgwyl Mrs Cofrestru yn adran gyfrinachol yr FBI!

Ta waeth am hynny, cymerwch mam wedyn. Mae hi'n trio cadw gyda'r oes, a symud gyda'r amser ond does ganddi'm clem am ffasiwn, de! Fe aeth y ddwy ohonom i Gaer dydd Sadwrn diwethaf, ac fe brynom lond ein hafflau o siwmperi, trywsusau, a thopiau ond fel oeddwn ni'n ceisio esbonio i mam, does dim iws prynu'r top a'r trywsus heb gael yr esgidiau, y bag llaw a'r belt i fatsio!

'Paid â siarad yn wirion hogan, pwy ti'n feddwl wyt ti dwad, Victoria Beckham?' meddai mam, gan wneud ei ffordd yn braf am adran yr esgidiau fflat yn Bon Marche! Does dim dysgu ar rai, meddyliais i mi fy hun, cyn ymlwybro i adran dillad isaf Marks a Spencer.

Wedi cyrraedd adref dyma drio'r dillad newydd a ffansio ein hunain ym mhob drych yn y tŷ, ac roedd mam hefyd yn edrych reit ddel, trowsus brown 'bootleg' cofiwch, a thop lliw hufen tyn. Roedd ei gwisg hi'n berffaith i fynd i fedydd fy nghefnder bach ychydig ddyddiau wedyn, ond ar fore'r bedydd, daeth mam i lawr y grisiau mewn rhyw hen sandalau gwyn chwydlyd, yn edrych fel ei bod yn hŷn na nain! A bag llaw oedd yn edrych mor hen ffasiwn â beic peni ffardding fy nhaid!

Bu rhaid i mi gymeryd y sefyllfa mewn llaw, a'i chertio hi'n ôl am y llofft na a chloddio i mewn i'r cwpwrdd dillad. Wedi peth chwilio a gweiddi a phopeth yn un pentwr pendramwnwgl ar lawr ei llofft, penderfynais fynd i chwilio i rywle gwell... fy nghypyrdda i – dyna welliant, meddyliais. Mae fy nghypyrdda i'n dwt a thaclus gyda hetiau a bagiau ar y silff uchaf, dillad yn hongian, ac esgidiau a beltiau yn y gwaelod, ac mae popeth yn rhedeg yn ôl eu lliw, h.y. adran hufen, adran binc, adran goch! Lol heb fod eisiau, meddai rhai, ond mae'n llawer iawn haws darganfod pethau mewn argyfyngau fel hyn tydi!

Yn ffodus iawn, mae mam yr un maint esgidiau â fi, ac felly fe fenthycais fy esgidiau a 'mag hufennog iddi. Roedd hi'n edrych reit smart wedi i mi orffen gyda hi, ond am strach oedd trio ei chael hi i gerdded mewn sodlau uchel! Wir yr, does gen i mo'r help. Meddwl weithiau mai un cylch mawr yw bywyd. Mae'r fam yn gwisgo a dysgu ei phlant i siarad a cherdded, ond yna mewn rhyw ugain mlynedd wedyn, mae'r ferch yn trio ei gorau i wisgo'r fam, ac i'w dysgu i gerdded yn gall!

Mi basiais fy mhrawf gyrru rai misoedd yn ôl bellach, un o'r pethau gora sydd wedi digwydd i mi hyd yn hyn. Dim mwy o aros am fws yn y glaw yn rhynnu, a nannedd i'n clecian. Dyna chi bethau dwi'n eu casáu – bysiau! Damia nhw! Mae dal bws i rywle yn rhoi dampar ar ddiwrnod allan cyn cyrraedd yno.

Mae'n rhaid cerdded i'r safle bws agosaf, sydd tua chan milltir i ffwrdd o'r tŷ (os dach chi'n bw yng nghanol nunlle fel fi!) ac wedyn sefyll am oriau a dim golwg o'r bws, ac yna, pan mae'r bws yn cyrraedd dydi'r gyrrwr ddim yn coelio eich bod chi'n fyfyriwr hanner tâl, ac mae o'n eich gorfodi i dalu llawn. Yna wedi i chi straffaglu i gyrraedd corff y bws, does dim lle i eistedd i lawr gan fod y *'blue rins brigade'* wedi ymgartrefu yn un clwstwr o gywion ieir yng nghanol y bws. Ond, os ydych yn ddigon ffodus i ddarganfod sedd a sodro eich pen ôl i lawr, byddwch chi'n codi'r pen arall i'r siwrne i ddarganfod eich bod wedi eistedd ar 'gwm cnoi' rhyw hogyn bach budr sydd wedi ei boeri ar y sedd, a difetha eich trywsus...! Mae'r ffordd adra'n waeth oherwydd fod rhaid i chi gwffio eich ffordd rhwng bygis plant bach a mamau *'stressed'* i eistedd, a morol am eich siopa!

Bendith yw'r car!

Dynion wedyn. Dyna chi bethau od ydi'r rheini! Fedra i ddim deall sut mae merch i fod i gadw ei phen a bod yn hanner call ar ôl bod trwy berthynas gyda chreadur anffodus o'r enw 'Dyn'. Mae'r ferch fach yn treulio hanner ei hamser yn rhedeg ar ôl ei hysglyfaeth, ac wedi iddi ei ddal, mae'r heliwr yn bodloni ar ei phryd am sbel, yna mae'n disgyn mewn cariad dwys gydag ef, yn meddwl mai 'fo' yw'r dyn y mae hi am ei briodi, ac yna'n treulio gweddill ei hoes yn crio o'i herwydd ac yn ei gasáu. Yna mae'r ysglyfaeth yn troi'n hen 'sglyfath budr hyll!' ac mae'r ferch yn cael ei gadael yn dorcalonnus ar ei phen ei hun ar ôl darganfod fod ei chariad a'r darpar ŵr a thad ei phlantos perffaith wedi bod tu ôl i'w chefn gyda Jên drws nesa. Sut meddech chi fod modd i chi gasáu rhywun yr oeddech yn ei garu cymaint! Dwi jest ddim yn deall! O, wedyn fe â'r ferch fach dorcalonnus ddiniwed trwy gyfnod gwallgof o fod eisiau lladd pob dyn y deuai ar ei draws, a gobeithio i'r nefoedd y gwnaiff Jên drws nesa gadw allan o'i ffordd gan na fyddai hi'n gyfrifol am ei gweithred pe tai hi'n ei gweld!

Ond yn wirionach na hyn eto, fe welwch yr hen ferch fach dorcalonnus yn caledu, a dechrau teimlo'n well a chymryd sylw o ysglyfaethwyr bach addawol eraill mewn ambell glwb nos ar y Sadwrn. A phan mae'n dechrau byw eto, fe ddaw ar draws yr hen rwdlyn meddw o *'ex-boyfriend'* ar bnawn Sul gwlyb yn Tesco yn slebwchan gyda rhyw ferch goman gwallt hir melyn, goes syth wrth adran y blodau. A dyna glustan hegr arall i'r ferch fach dorcalonnus unwaith eto, ac fe aiff adra i grio eto o flaen y teledu a chuddio'r glorian am fis arall wedi iddi gloddio ei ffordd trwy focsiediau eraill o Dairy Box.

Dwn i ddim wir! Mae llwybr bywyd yn beth od ofnadwy. Dych chi byth yn gwybod go iawn beth sydd am ddwad rownd y gornel, y nac 'dach. Pwy sa'n meddwl fod Mrs Cofrestru wedi bod yn ifanc a deniadol unwaith yn ei bywyd, a dwi'n siŵr ei bod hi'n deall beth yw'r 'bore ar ôl y noson gynt' ar fore dydd Llun weithia. Pwy a ŵyr, efallai y byddwn innau yr un fath os y byddai llond dosbarth o'r chweched, a'u cegau yn fy mwydro i gyda'r un esgusodion ym mhle oeddynt amser cofrestru bob dydd. Efallai mai athrawes fydda i wedi i mi adael. Ond dwn i ddim chwaith. Mae hyn yn wastad wedi fy mhendroni. Pam – be sy'n dod dros ben unigolyn sydd wedi treulio o leiaf ddwy flynedd mewn Ysgol Feithrin, saith mlynedd mewn Cynradd, saith mlynedd bellach mewn Ysgol Uwchradd, ac yna o leiaf dair blynedd arall yn rhedeg ar ôl addysg uwch cyn dychwelyd yn ôl i'r Ysgol am fwy ohono!

Na, dydw i ddim yn meddwl mai athrawes fydda i, 'gormod o bwdin dagith gi', dyna yw'r ddihareb sy'n esbonio'r sefyllfa hon!

Dwi'n hoffi siopa'n fawr iawn, ac wrth fy modd yn potsian gyda gwallt a cholur a geriach felly – efallai mai artist coluro fydda i. I un o sêr y byd pop, neu ffilm yn Holywood. Efallai mai fi fydd y seren. Dwi'n hoffi actio hefyd. Beth bynnag ddaw ohonof, 'swn i'n hoffi dod ar draws Mrs Cofrestru eto mewn chydig o flynyddoedd iddi weld beth ddaeth ohonof, er mwyn cael dweud wrthi beth ddaeth o'r 'agwedd' ma sydd gen i.

Tydw i ddim yn meddwl fod gen i broblem agwedd o gwbl. 'Tyfu i fyny' yw'r term meddygol dwi'n meddwl, am y cyfnod yma o mywyd. Un daith hir ar fws ar ddiwrnod glawog yw bywyd, does dim dal pwy ddaeth i mewn ac allan, pwy wneith aros yno am sbel, pwy wneith stopio i gymryd sylw ohonoch ar y bws hud 'ma.

'Bywyd 1' yw enw fy mws i, a does dim dal pryd wnaiff y gyrrwr mawr ddweud wrthyf fod fy nhaith ar ben. Efallai y'ch gwelaf chi ar fy mws i ryw ben. Fi fydd yr un yn eistedd ar y 'gwm cnoi' yn y cefn!

Dwn i ddim be ddaw ohonof wedi i mi orffen fy addysg a dweud y gwir. Ar hyn o bryd dwi'n hen ddigon hapus yn teithio ar y bws ac am fy nyfodol? – mi groesith y bws y bont honno pan ddaw ati.

GWERSI PIANO A CHANU
Sharon V. Williams B.A.
Pentir **(01248) 353746**

Hoci Gwynedd

Llongyfarchiadau i Alaw Ceris ac Angharad Jones Bl 11 ar gael eu dewis i Dîm Hoci dan 16 Gwynedd.

Chwaraeodd y ddwy yn arbennig o dda yn eu gemau a bu'r tîm yn fuddugol yn erbyn siroedd Wrecsam, Fflint a Dinbych. Cafwyd gêm gyfartal yn erbyn Môn a cholli yn erbyn Trefaldwyn a Chonwy.

Trefaldwyn enillodd y gystadleuaeth gyda Gwynedd yn drydydd.

Pêl-Rwyd

Mae Alaw Ceris yn amryddawn iawn gan iddi hefyd gael ei dewis i Dîm Pel-Rwyd Gwynedd dan 16.

Cafodd tair arall o Ysgol Brynrefail eu dewis i chwarae Pêl-Rwyd i Wynedd a hynny dan 14 oed, sef Lowri Elena Jones a Marged Rhys o flwyddyn 8 a Lowri Ann Jones o flwyddyn 9.

Yn eu gemau yn nhwrnament Eryri bu'r ddau dîm (dan14 a 16) yn fuddugol yn erbyn Ynys Môn, ond colli yn erbyn Conwy.

Llongyfarchiadau arbennig i Lowri Ann Jones a gafodd ei dewis i gynrychioli Eryri dan 14.

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Enillwyr Y CLWB CANT

Hydref 2003

Mrs Sheila Foulkes, Bethel (£43.25); Mrs Glenys Day, Brynrefail (£25.95); Mrs Meryl Green, Pontrug (£17.30).

Tachwedd 2003

Dr Gwyn Williams, Llanberis (£43.25); Mrs Bethan Owen, Waenfawr (£25.95); Ms Kim Lowther, Llanrug (£17.30).

Rhagfyr 2003

Mr Robert R Parry, Bethel (£43.25); Mrs Heather Tate, Cwm y Glo (£25.95); Mrs Hope Barlow, Clwt y Bont (£17.30).

Llongyfarchiadau i bawb a diolch am eich cefnogaeth

Rygbi

Blwyddyn 10

Wedi gemau cwpan y Byd ar gaeau caled yn Awstralia dyma ni yn ôl i realiti. Chwaraeodd Ysgol Brynrefail ar gae mwdlyd ofnadwy yn Ynys Môn, ac er bod yr amgylchiadau yn ddrwg cafwyd gemau cystadleuol iawn.

Sgoriodd Ysgol David Hughes yn gyntaf ond anodd iawn oedd ei throsi o'r ystlys o dan yr amgylchiadau. Ac, er brwydro yn galed iawn yn yr hanner cyntaf, ni lwyddodd Brynrefail i sgorio.

Yn yr ail hanner roedd pethau'n wahanol iawn gyda Brynrefail yn pwyso a chafwyd cais gan y canolwr, Berwyn Jones, y byddai Phil Bennett gynt yn falch ohoni, ac fe'i troswyd gan Gethin Wakeham. Dau bwynt oedd ynddi ond, fel yr oedd yn nesu at yr amser llawn, cafodd Brynrefail gic gosb o flaen y pyst a chamodd Gethin Wakeham ymlaen eto yn arwrol a'i chicio'n bert rhwng y pyst.

Sgôr terfynol: Ysgol David Hughes 5 Ysgol Brynrefail 10.

* * *

Blwyddyn 8

Ni chafwyd adroddiad am gêm blwyddyn 8 ond y canlyniad oedd Ysgol David Hughes 10 Ysgol Brynrefail 12.
Go dda hogia daliwch ati.

Eisteddfod Ysgol Brynrefail *(Mwy ar y dudalen rydd)*

Angharad Morris 7O gyda Thlws Emma Bernard am yr adroddiad gorau.

Rhai o'r disgyblion a enillodd Dlws Pwnc.

Siôn Elwyn Hughes 7O, Gwyrfai mor falch o'i dlws am weithgareddau 'ymlaen llaw'.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

Wavell Roberts

CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon
673574

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Y DYN CIG
BRYNAFON
LLANRUG

675190 • 673188

Gwasanaeth lleol ar gyfer
Partïon•Priodasau
Pen-blwydd • Bedydd • Dawns • Gwyliau
RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur
Cig o ffermydd lleol, Partïon rhwng 40 a 400!
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â: **John Hughes** ar un o'r rhifau uchod

Pryd i Bawb
Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas • Parti
Te Angladdau • Cinio Busnes

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

CERID MACKINNON
Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY
(01286) 673190

GAREJ PEUGEOT HAFOD
LLANRUG Ffôn: 673372

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
John Trevor
a'i deulu,
a'r holl staff

PEUGEOT 307
YN MYND O NERTH I NERTH!

"Esmwyth • Cyfforddus • Diogel
Wedi ei Adeiladu'n Dda"–
Dyma rai o'r pethau a ddywedwyd am y **PEUGEOT 307** gan y Wasg Foduro. Fe gewch chithau eich plesio hefyd!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCHIADAU. Dymuna Dic a Hefina Jones a'r teulu, 8 Rhos Rug, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau, cymdogion a chyn gymaint o bobl a fu mor garedig wrthynt, ac am yr holl gardiau, dymuniadau da, galwadau a phob arwydd o gymorth a dderbyniwyd tra y bu Dic yn yr Uned Gofal Dwys, Ysbyty Gwynedd.

Mae adref nawr ac yn dechrau gwella i gael mynd am dro bach gyda'i gyfeillion. Diolch yn fawr iawn.

CYFARCHION NADOLIG. Gan na fyddaf yn gyrru cardiau y Nadolig hwn, dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb drwy gyfrwng yr Eco.

Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn.

DYMUNA Mrs Mona Mai Griffiths, 2 Hafan Elan ddiolch i'w cyn-gymdogion am yr holl flynyddoedd o garedigrwydd a dderbyniodd ganddynt, ac am y croeso yn Hafan Elan. Diolch am y cardiau a'r anrhegion. Diolch yn fawr i bawb.

CYFARCHION. Gan na allaf anfon cardiau Nadolig eleni, hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lewyrchus i'm ffrindiau a'm cymdogion, aelodau Capel y Rhos a darllenwyr yr Eco, ac yn arbennig i'r gofalwyr sydd yn edrych ar fy ôl beunydd. Gwladys M. Jones, Y Dalar Deg.

YR YSGOL GYNRADD.

Cyfrannu at Achosion Da.

Yn ystod Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol casglwyd £162 at CLIC, cymdeithas sydd yn ymchwilio i achosion Cancr a Liwcimia mewn plant.

Yn dilyn diwrnod o wisgo dillad ffasiynnol (dim gwisg ysgol) a chystadleuaeth enwi'r ddol, cyflwynwyd yn agos i £134 gan ddisgyblion yr ysgol i Ymgyrch Plant Mewn Angen.

Bu'r plant a'u rhieni yn llenwi bocsus esgidiau gyda rhoddion i eraill eto eleni, a chariwyd dros gant o focsus o'r neuadd i'r fan ar gyfer *Operation Christmas Child*.

Ffair Nadolig.

Er gwaethaf y tywydd roedd yn brysur yn y Ffair Nadolig a phawb wedi cael mwynhad yn gwrando ar gôr Clwb Rygarug yn canu carolau; ar eitemau gan Fand Ieuenctid Llanrug, a pherfformiad 'Cortyn'. Ond y rhyfeddod mwyaf oedd cael cyfarfod a sgwrsio gyda Siôn Corn – dyma uchafbwynt y noson i'r plant bach.

Dymuna'r staff, disgyblion ac aelodau Pwyllgor Cyfeillion yr Ysgol ddiolch o galon am bob cefnogaeth y maent wedi ei dderbyn i weithgareddau'r ysgol drwy gydol y flwyddyn.

Ar Ymweliad.

Cymerodd disgyblion Bl. 3 a 4 gam yn ôl mewn amser i'r Oes Fictorianaidd tra'n ymweld ag Amgueddfa Lloyd George a bwthyn Highgate, a chael profiad o Nadolig plentyn y cyfnod. Buont yn brysur yn gwneud cerdyn Nadolig a pharatoi pwdin Nadolig traddodiadol y cyfnod.

Cafodd disgyblion Bl.5 ymuno â 'Chwmni Dawns i Bawb' a fu yn yr ysgol yn cynnal Gweithdy Dawns, Barddoniaeth a Cherddoriaeth. Mwynhaodd pob un y profiad yn fawr.

Daeth ffotograffydd a gohebydd papur newydd *Yr Herald* i'r ysgol i sgwrsio â rhai o ddisgyblion Bl.2 am eu syniadau a'u barn am ŵyl y Nadolig. Diddorol iawn oedd darllen yr erthygl.

Fel rhan o waith thema ar fwyta'n iach a thyfiant, daeth Miss Williams a'i mab bach deng mis oed, Deian, i ymweld â disgyblion Cyfnod Allweddol Un. Cawsant weld faint yr oeddynt hwy wedi ei dyfu yn ystod pum neu chwe blynedd o amser.

Wedi prysurdeb y paratoi a'r ymarfer bu plant yr ysgol yn perfformio eu cyngherddau Nadolig i'w teulu a'u ffrindiau. Eto eleni, gwnaeth pob un ei ran yn rhagorol a phob rhiant yn gwerthfawrogi eu gwaith.

Cafodd y plant gyfle i ymlacio yn ystod y deuddydd olaf o'r tymor, yn mwynhau cinio Nadolig wedi ei baratoi gan staff y gegin; yn gwylio Howard Hughes y consuriwr yn gwneud pob math o driciau, ac ar brynhawn Gwener olaf y tymor aeth pawb, ar wahân i blant yr Adran Feithrin, draw i Theatr Gwynedd ym Mangor i wylio'r pantomeim 'Gwylliaid Cochion'.

Rydym yn falch fod Anti Margaret, y Swyddfa, yn ôl gyda ni yn yr ysgol ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Cydeymdeimlwn â Mrs Rhiannon Evans, yr ofalwraig, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yng nghyfraith.

Llongyfarchwn Mrs Eirian Howells ar gael ei phenodi yn ddirprwy Brifathrawes yr ysgol, a Mrs Heulwen Evans ar gael ei phenodi yn Bennaeth Adran y Babanod.

Llongyfarchiadau i Miss Clare Burgess ar gael ei phenodi i swydd athrawes yn Ysgol Pencarnisiog, Ynys Môn. Diolchwn iddi am ei gwaith caled yn ystod y ddau dymor y bu yma yn Ysgol Llanrug.

Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch. Bydd y plant yn troi am yr ysgol i ail-afael yn eu gwaith ddydd Mawrth, 6 Ionawr 2003.

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, yng nghwmni ei theulu, ar 20 Tachwedd, bu farw Mrs Jane Williams, Bynglo Bryn Llan, Llanrug. Gwraig y diweddar Rasmus a mam Elizabeth a'i phriod Dafydd, ac Andrew a'i briod Maureen, a nain ofalus Michael, Karen a Rachel, a merch Ivy Morton Jones.

Bu gwasanaeth preifat ar yr aelwyd ddydd Mercher, 26 Tachwedd ac yn gyhoeddus ar lan y bedd ym Mynwent St. Mihangel, Llanrug, lle daeth teulu, ffrindiau a chymdogion i dalu eu teyrnged. Gwasanaethwyd gan y Parch Dafydd Hughes a threfnwyd yr angladd gan Dylan Griffiths, Tros y Waen, Penisarwaun.

Cafodd Jane Williams ei geni a'i magu a'i haddysgu yng Nghaernarfon. Wedi gadael yr ysgol ymunodd â'r *'Land Army'* a bu'n gweithio ar ffermydd ym Môn. Daeth yn ôl i Gaernarfon a chafodd waith ar Fferm Rhosdican, a rhan o'i gwaith oedd y rownd lefrith. Ymunodd â chlwb y Ffermwyr Ifanc, ac yno y cyfarfu â'i gŵr, Rasmus. Priodwyd y ddau yn Eglwys Crist Caernarfon, a buont yn byw yng Nghaernarfon am ychydig cyn symud i Bryn Llan, Llanrug. Yn ogystal a helpu ar y fferm, magodd Elizabeth ac Andrew, ac ym Mryn Llan y ganed Andrew. Collodd ei gŵr 5 mlynedd yn ôl. Ei diddordebau oedd gwylio adar bach drwy ffenestr ei bynglo yn Bryn Llan, blodau a gwylio chwaraeon o bob math ar y teledu.

DIOLCHIADAU. Dymuna Andrew, Maureen, Elizabeth a David a theulu Mrs Jane Williams, ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd, ac am y rhoddion er cof am eu mam. Diolch yn arbennig i Mr Dafydd Hughes, y gweinidog, ac i Mr Dylan Griffiths, yr ymgymerwr, am ei wasanaeth gofalus a thrylwyr.

DYMUNA Mrs Betty Peris Jones, Cartref Preswyl Gwynfa, Caernarfon (gynt o Lanrug) ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cyn-gymdogion Hafan Elan a'i holl ffrindiau yn ardal yr Eco. Diolch i bawb sydd wedi cadw cysylltiad â hi yn ystsod y flwyddyn.

DYMUNA Mrs Nansi Jones, 20 Hafan Elan, anfon Cyfarchion yr Wyl Nadolig a dymuno Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Diolch i'r Nyrsus Bro am eu gofal trwy gydol y flwyddyn.

GWELLHAD BUAN. Dymuniadau gorau am wellhad buan i Dora xxxxxx, Y Fedwen, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

PLAID CYMRU. Er gwaetha'r gêm bêl-droed bwysig yng Nghaerdydd, fe gafodd Cangen Llanrug gyfarfod difyr a hwyliog yn holi'r cynghorwyr lleol nos Fercher, 19 Tachwedd. Trafodwyd pynciau mor amrywiol a chyflwr y ffyrdd, parcio, baw cŵn, casglu sbwriel, trethi uchel a gwasanaeth yr heddlu, y problemau sydd yn poeni trigolion y cylch. Dan gadeiryddiaeth Phyllis Ellis, roedd y drafodaeth yn profi mor ffodus yw'r ardal hon yn ei chynghorwyr, Pat Larsen, Charles Wyn Jones a Len Jones, sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth ar Gyngor Gwynedd. Yn anffodus methodd Huw Price Hughes o Fethel â bod yn bresennol.

Gwnaeth y bwrdd gwerthu elw sylweddol, er bod llai nag arfer yn bresennol. Diolch i Helen a Llinos am ddarparu'r baned.

Ni fydd cyfarfod ym mis Rhagfyr, ond Dafydd Wigley fydd yn siarad yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd, nos Fercher, 21 Ionawr 2004. Bydd croeso cynnes i bawb yn Sefydliad Coffa Llanrug am 7.30.

PENBLWYDD HAPUS i Dylan Owen, Hafan Elan a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig cyn y Nadolig. Croeso adre' iddo hefyd ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Da deall ei fod yn gwella.

DYMUNIADAU gorau am Nadolig Llawen iawn i bawb.

CAPEL TAN Y COED LLANRUG

Gwasanaeth Noswyl Nadolig

24 Rhagfyr
6.00 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gosodwr Teils
Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

41A STRYD FAWR
LLANBERIS Ffôn: 872501

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
ODDI WRTH
IFOR A MARGARET

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS
RHIWLAS
01248-361044

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
LLOGWCH FWS
I'W DDATHLU'N
DDIOGEL

Cyfarchion Nadolig
Busnesau LLANRUG

Simneau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG

Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 674781

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

PAT AC EDGAR
SWYDDFA'R POST
LLANRUG

SWYDDFA'R POST

Ffôn: (01286) 672422

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth

DYLAN A MIKE

SIOP CHIPS TEGFAN

Y Sgwâr

LLANRUG 678282

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth



Y SGWÂR
LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764
neu
07050 357735



- FFENESTRI
- DRYSAU
- DRYSAU PATIO
- *PORCHES*
- BYRDDAU FFASIA
- CLADIO
- CONSERFATERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Elaine's

SIOP DRIN GWALLT

LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR

Mawrth	9.00 – 7.00
Dynion yn unig (Elaine a Sharon)	3.30 – 7.00
MERCHER	9.00 – 1.00
Dynion yn unig (Wendy)	6.30 – 8.00
IAU	9.00 – 8.00
GWENER	9.00 – 8.00
SADWRN	7.30 – 6.00

- **Dydd Mawrth a Dydd Mercher i bensiynwyr**
- **Coluro ar gyfer achlysuron arbennig**
- **Gwasanaeth arbennig ar gyfer priodasau**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard, Meirwen a'r staff

SPAR

Y SGWÂR, LLANRUG

Ffôn: (01286) 672790

AR AGOR BOB DIWRNOD HEBLAW DYDD NADOLIG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

Sefydlwyd 1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

NHBC

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol nos Lun, 17 Tachwedd yn Ysgol Gymunedol Cwmyglo. Yn bresennol roedd Mrs Pat Parry, Waunfawr, Swyddog o Ffederasiwn Sefydliad y Merched. Cafwyd adroddiad ganddi am 'Coins for Friendship' sef cynllun i godi arian i gynorthwyo merched yng ngwledydd tlotaf y byd. Ni chynhaliwyd etholiad gan i'r oll o'r swyddogion gael eu hailethol: Llywydd, Mrs Pat Jones; Ysgrifennydd, Mrs Carol Houston; Trysorydd, Mrs Verna Jones gyda Mrs Nerys Roberts a Mrs Gwenda Roberts yn gofalu am raglen y flwyddyn. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Mai Davies a Mrs Elinor Williams. Enillwyd gwobr y noson, rhoddedig gan Mrs Nerys Roberts, gan Mrs Pat Parry.

Nos Lun, 15 Rhagfyr, mwynhaodd aelodau'r gangen eu cinio Nadolig Blynyddol ym Mwyty Country Manor, y Felinheli.

Bydd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd nos Lun, 19 Ionawr.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

Croeso cynnes i bawb i ddathlu Gŵyl y Geni yn y gwasanaeth a gynhelir fore Sul, 21 Rhagfyr, am 10 o'r gloch. Bydd gwasanaeth olaf y flwyddyn nos Sul, 28 Rhagfyr, am 5.30 dan ofal y Parch John Owen, Bethesda.

OEDFAON IONAWR 2004

4: Mr John McBryde, Brynrefail am 10.00;
11: Parch Gwenda Richards, Caernarfon am 5.30;
18: Parch Reuben Roberts, Bontnewydd am 5.30;
25: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon am 5.30.



I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr PORTHAETHWY

Ffôn: **(01248) 714643**

neu **Caernarfon**

Ffôn: **(01286) 674520**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda

WAUNFAWR (Atodiad)

EISTEDDFOD. Llongyfarchiadau i bob un fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod. Diolch i'r rhai fu'n hyfforddi ac i'r pwyllgor am drefnu.

Cynhaliwyd Eisteddfod Ardal Waunfawr dan 19 oed yn y Ganolfan ddydd Sadwrn, Tachwedd 29ain. Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn gyda llawer iawn yn cystadlu.

Y beirniad adrodd oedd Mrs Nerys Haf Parry, o Roscolyn, Ynys Môn a'r beirniad cerdd oedd Mrs Deilwen Hughes o Fethel. Mrs Sioned Glyn, gynt o Waunfawr, a feirniadodd y gwaith celf a Mrs Bethan Dobson o Bant Glas y cystadlaethau llên. Mrs Ann Marston oedd yn cyfeilio.

Wrth ddiolch i bawb ar y diwedd diolchodd Mrs Irene Roberts, y llywydd, yn arbennig i'r beirniaid cerdd ac adrodd am eu caredigrwydd a'u hynawsedd, i Mrs Parry am ddod i'r adwy ar y funud olaf pan fu'n rhaid i feirniad arall dynnu'n ôl, ac i Mrs Hughes am gydsynio mor barod pan fu'n rhaid newid dyddiad yr eisteddfod. Diolchodd Irene yn arbennig hefyd i brifathrawes Ysgol Waunfawr, Mrs Gwenan Dafydd, ac i holl staff yr ysgol am eu gwaith eithriadol o galed yn paratoi'r plant ar gyfer yr eisteddfod, ac am gynnal y cystadlaethau llên a chelf yn yr ysgol.

Soniodd Irene am ein tristwch eleni oherwydd ein bod wedi colli dau o garedigion yr eisteddfod yn ystod y flwyddyn, sef Yncl Wil neu Wil Beics, (Mr William Jones), oedd wedi llunio'r tlws yr arferid ei roi'n wobr yn yr eisteddfod nos, ac Wmffra (Mr Wmffra Jones), cyn-lywydd ac un o gefnogwyr a chystadleuwyr mwyaf brwd Eisteddfod Waunfawr. Soniodd Irene am y siom na fu'n bosibl cynnal eisteddfod nos eto eleni a'r gobaith y byddai modd cyflwyno cwpan coffa Wmffra am enillydd y gystadleuaeth canu emyn am y tro cyntaf y flwyddyn nesaf.

Dyma restr enillwyr y cystadleuthau gwahanol.

Canlyniadau Eisteddfod y Prynhawn

CANU BLWYDDYN 0
1. Grace
2. Dafydd
3. Molly

ADRODD BLWYDDYN 0
1. Gwion
2. Grace
3. Dafydd

CANU OED MEITHRIN
1. Iolo
2. Tomos Parry a Nia
3. Hamish ac Ifan

ADRODD OED MEITHRIN
1. Tomos Siôn
2. Nia
3. Iolo a Morgan

CÂN ACTOL OED MEITHRIN
1. Parti'r Ysgol Feithrin

CANU BLWYDDYN 1 a 2
1. Marred Rhys
2. Megan Elen
3. Jacob a Faye

ADRODD BLWYDDYN 1 a 2
1. Megan Elen
2. Marred Rhys
3. Megan

UNAWD RECORDER BLWYDDYN 3 a 4
1. Anya
2. Sioned
3. Gwenan ac Elin

UNAWD PIANO HYD AT BLWYDDYN 4
1. Sioned
2. Anya a Gwenan
3. Hanna ac Erin

UNAWD RECORDER BLWYDDYN 5 a 6
Neb yn cystadlu

UNAWD BLWYDDYN 3 a 4
1. Sioned
2. Rosie
3. Elin

ADRODD BLWYDDYN 3 a 4
1. Sioned
2. Catrin
3. Anya

PARTI RECORDER YSGOL GYNRADD
1. Parti Un a Pharti Dau yn gydradd gyntaf

CÂN ACTOL / SGETS
Neb yn cystadlu

UNAWD PIANO BLWYDDYN 5 a 6
1. Lea
2. Elgan

UNAWD CERDD DANT OED CYNRADD
Neb yn cystadlu

DEUAWD OED CYNRADD
1. Marred ac Elgan
2. Lea a Keely

UNAWD CÂN WERIN
Neb yn cystadlu

PARTI CERDD DANT
Neb yn cystadlu

UNAWD OFFERYNNOL
1. Shauna
2. Gwenan
3. Anya a Lea

UNAWD BLWYDDYN 5 a 6
1. Elgan

ADRODD BLWYDDYN 5 a 6
1. Lea
2. Cain
3. Elgan

PARTI DAWNSIO GWERIN
Neb yn cystadlu

PARTI CANU
1. Parti Dau
2. Parti Un
3. Parti Hogiau

PARTI ADRODD
Neb yn cystadlu

GRŴP OFFERYNNOL
Neb yn cystadlu

PARTI DAWNSIO DISGO
1. Glitterbabes

UNAWD DAN 15 OED
1. Huw

ADRODD DAN 15 OED
2. Sara

DEUAWD DAN 15 OED
Neb yn cystadlu

CÂN WERIN DAN 15 OED
Neb yn cystadlu

OFFERYNNOL DAN 15 OED
1. Huw
2. Sara

Cystadlaethau Eraill

Llên

Blwyddyn 3
1. Erin Ynyr
2. Katie Sturman
3. Erin Haf Roberts

Blwyddyn 4
1. Anya Price
2. Catrin Heledd Owen a Sioned Jones
3. Hanna Mair Williams a Hanna Latham

Blwyddyn 5 a 6
1. Dafydd
2. Jessica
3. Keeley a Cara

Arlunio

Oed cyn ysgol
1. Nia
2. Tomos Parry
3. Connor

Blwyddyn 0
1. Molly
2. Beth/Dafydd Llwyd
3. Tim

Blwyddyn 1
1. Pauline
2. Dafydd Meredydd
3. Meleri

Blwyddyn 2
1. Jac
2. Gwenllian
3. Beca

Blwyddyn 3
1. Erin Ynyr
2. Katie Sturman
3. Yasmin Moss

Blwyddyn 4
1. Gwenan Williams
2. Hanna Mair Williams
3. Ffiona Barnes

Blwyddyn 5
1. Cain
2. Eira
3. Jasmine

Blwyddyn 6
1. Meleri Gwyrfai
2. Sharron
3. Jason Parry

Gwaith Llaw

Blwyddyn 0
1. Tim
2. Elen Margaret
3. Gwion

Blwyddyn 1
1. Charlotte
2. Megan Elen
3. Tesni

Blwyddyn 2
1. Jessica
2. Owain
3. Shannen

Blwyddyn 3
1. Erin Haf Roberts
2. Lois Jones
3. Annest Griffiths

Blwyddyn 4
1. Ffion Williams
2. Ffiona Barnes
3. Elin Lloyd Griffiths

Blwyddyn 5 a 6
1. Cain
2. Jessica
3. Jasmine

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a fu ynglŷn â'r eisteddfod eleni. Gwerthfawrogwyd pob cefnogaeth!

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus rhywbryd yn y flwyddyn newydd i drafod dyfodol yr eisteddfod nos, a thaer erfyniwn ar bawb sydd â diddordeb i ddod ynghyd. Cyhoeddir dyddiad y cyfarfod yn nes at yr amser.

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Dave, Gill a staff y

GLYNTWROG
LLANRUG

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

yn LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

- **Trin cyrff ceir**
- **Gwaith Mecanyddol**
- **Gwasanaeth/Service**
- ***Valleting***

(01286) 870814

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn: C'fon: 675754

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

WENDY,
GERAINT
A STAFF

TAFARN PENBONT
LLANRUG

Lle braf a chwmni difyr dros wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

BRYN AFON ENGINEERING LTD
PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob
math o waith metel

GWAITH BRYN AFON
LLANRUG, Ffôn: 675523

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET

PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i ddarllenwyr Yr Eco oddi wrth Bawb
ym Mharc Cartrefi Gwyliau

HOLIDAY HOME PARK

Brynteg
LLANRUG

– lle gwireddwyd breuddwyd

"Y Parc Gorau ym Mhrydain"
Calor 2002
a hefyd **Gwobr Gyntaf**
'Cymru yn ei Blodau Wales in Bloom'



GRŴP
TALACRE
BEACH

Dymunir diolch i drigolion ardal Eco'r Wyddfa am eu cefnogaeth yn ystod datblygiad y parc. Buddsoddodd y perchnogion, fwy na £3.5 miliwn ym Mrynteg.

Yn y broses, crewyd rhagor na 40 o swyddi. Hefyd cefnogwyd a noddwyd nifer o achosion da lleol.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
Ysgol Yrru Ofalus

★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112
Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn
Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda oddi
wrth bawb yng

NGHARTREF

Y Foelas

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH

DENNIS ROBERTS

(Glyn Roberts a'i Fab)

DYNION GLO LLANRUG

Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

LINDA MORRIS
GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF

1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF
LLANRUG. Ffôn: 678857

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Dymuna'r Cyngor Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl Ardalwyr.

Cynhaliwyd cyfarfod y Cyngor Nos Fawrth, 2 Rhagfyr dan lywyddiaeth y Gadeiryddes Miss Sara Wood, hi hefyd offrymodd y weddi ddechreuol.

Croesawyd yr Uwcharolygydd Gareth Wynne a'r Arolygydd Simon Davies o Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod.

Gwirfoddolodd yr Uwcharolygydd Gareth Wynne i agor y drafodaeth gan fynegu siom o ymateb y Cyngor ar ôl cyfarfod Mis Gorffennaf. Ychwanegodd yr Arolygydd Simon Davies bod y gwasanaeth wedi gwella ar ôl penodi Swyddog bro i ardal Y Felinheli a Bethel, a bod un arall wedi ei benodi ar gyfer ardaloedd Llanberis, Nant Peris, Llanrug a Deiniolen. Un arall hefyd i gyffiniau Pen y Groes. Gobeithir cynnwys Penisa'rwaun a Rhiwlas ar ôl cyfarfod gyda'r tri uchod ddydd Iau.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Huw P. Hughes bod y sefyllfa ym Methel wedi gwella ers y penodiad.

Gofynnodd y Cynghorydd Gwilym Williams a oes modd cynnal surjeries mewn lleoedd fel Tŷ Eryri. Cyfeiriodd y Cynghorydd Len Jones at gamerau Deiniolen – dim ond yr Heddlu all chwarae'r tapiau yn ôl, nid yw hynny'n digwydd yn ddigon aml. Cyfeiriodd hefyd at gar a ddaeth i Ddeiniolen am 3.00 y bore a sacthu ffenestri, ni ddaeth yr Heddlu yno am ddiwrnodau.

Ateb yr Heddlu oedd y dylai'r sefyllfa wella o dan reolaeth y Swyddog Bro. Sicrhau agoriad Tŷ_ Elidir iddo gael mynedfa at y tapiau fel bo'r angen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Phyllis Ellis at y digwyddiad o ladrad o'i thŷ, ddwywaith yn olynnol. Dywedodd Simon Davies ei bod yn cymryd wythnos i gael y fforesig allan a dau fis i'r C.I.D. Pwysleisiodd Miss Ellis bod mwy o werth o lawer wedi ei ddwyn yr ail dro. Dywedodd Gareth Wynne bod llawer iawn o waith i gael digon o dystiolaeth i roi troseddwyr tan glo.

Gofynnodd y Cynghorydd Gwilym Williams beth yw'r posibilrwydd o gael presenoldeb Heddlu ar noswcithiau Gwener a Sadwrn? Ateb – ceisio trefnu rota i hynny ond dim digon o nifer o heddwcision ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd yr Heddlu bod pedwar heddwas yn Llanberis bellach gan gynwys y Swyddog Bro.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Pat Larsen at y gor-yrru ar hyd Gallt y Foel.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â llygredd sŵn, amlygwyd yr angen am fesur y sŵn a'r gwahaniaeth rhwng sŵn a gynhychir y tu allan i sŵn oddi fewn i dŷ.

Gwnaeth y Cynghorydd Elwyn Jones sylw, o'i brofiad o weithio gyda ieuenctid, pan fo drwg weithredwyr yn cael eu dal a'u danfon i ffwrdd, maent yn dod yn ôl lawer iawn yn waeth. Beth am ymdrin â hwy yn y gymdeithas? Cyfeiriodd hefyd at gŵyn yr Heddlu mai diffyg arian yw'r rheswm am cyn lleied o heddweision, gan ofyn faint o'r arian dirwyon 'Cyrraedd yn Ddiogel' sydd ar gael i'r adran yng Nghaernarfon. Yn aml iawn gwelir hyd at bump plismon o gwmpas y modur camera.

Ateb – tîm gwahanol sy'n ymwneud â phlismona trafnidiaeth. Nid oes dim o'r arian hwnnw yn dod i'r adran.

Crynhodd y Cynghorydd Dafydd Morris mai gwasanaeth eilradd i Gaernarfon a ddarperir yng nghefn gwlad.

Y Cynghorydd Elwyn Jones – buasai gweld presenoldeb heddwas o help mawr.

Diolchodd y Gadeiryddes i'r Uwcharolygydd a'r Arolygydd am eu presenoldeb ac am eu parodrwydd i drafod gyda'r Cyngor.

Cofnodion Tachwedd
Derbyniwyd fel rhai cywir.

Materion o'r Cofnodion
Cyflwynwyd ateb y Cynulliad ynglŷn â chodi trethi, penderfynwyd pwyso eto ar y sefyllfa yng Nghefn Gwlad er bod y penderfyniad wedi ei wneud.

Cyflwynwyd llythyr Y Bnr Dafydd Wigley, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Eisteddfod 2005. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr feddwl ymlaen am godi rhywfaint o braesept ar gyfer cyfraniad ym 2004/2005 er mwyn llaesu rhywfaint ar y baich i'r ffyddloniaid.

Camfa ar llwybr 18, Brynrefail
Ateb Gwynedd – bod camfa newydd wedi ei danfon i'r tirfeddiannwr ei gosod. Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Morris bod y llwybr yma yn rhan o'r rhwydwaith a gynhelir yn llwyr gan y Cyngor Sir – llythyr i Wynedd.

Gohebiacthau craill
Cyngor Gwynedd – awgrymwyd yr enw 'Ysgoldy' gan y datblygwr ar y pedwr tŷ_ sydd i'w codi ar y safle. Cytunwyd â'r awgrym.

Ni ymddangosodd bws 08.09 o Ddeiniolen i Gaernarfon ar 13 Tachwedd. Penderfynwyd ysgrifennu at Swyddog Cludiant Gwynedd i amlygu hyn a gofyn a dalwyd cymorthdal at y daith na chafodd ei gwireddu.

Cyflwynwyd ateb Gwynedd i'r gŵyn am gyflwr rhifau 1 a 2 Stryd Newydd, Deiniolen. Penderfynwyd aros i weld a fydd rhyw ddatblygiad.

Ateb Gwynedd i lythyr y Cyngor dyddiedig 3 Gorffennaf – nid oes modd cyhoeddi rhaglen sgipiau cymunedol ar hyn o bryd.

Y Cynulliad. Rhannwyd Crynodeb Gweithredol o 'Astudiaeth Ymchwil i Rôl Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potential i'r Dyfodol'. Cynrychiolir y Cyngor mewn cynhadledd ar y pwnc yma yn Llandudno ar 22 Ionawr gan y Gadeiryddes Sara Wood a'r Cynghorydd Len Jones.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Phylip Jones unwaith yn rhagor at sefyllfa'r sbwriel ym Maes Parcio Marchlyn Mawr – llythyr i atgoffa Gwynedd.

Y Cynghorydd Len Jones – Mae cyflwr y waliau o Rydfadog i Ddinorwig yn ddrwg. Penderfynwyd cwyno eto i Wynedd a gofyn beth yw'r rheolau cyffredinol ynglŷn â chyfrifoldebau'r Awdurdod Priffyrdd â'r tirfeddianwyr.

Cynllunio
Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am addasu Stiwdio Potar i Fwthyn Ymwelwyr yn Bron y Foel, Gallt y Foel. Y Rhesymau yw bod y fynedfa o'r ffordd fawr yn anodd ac yn beryglys a nid yw'r ddarpariaeth carffosiaeth yn ddigonol.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:
Tŷ Mawr, Llanddeiniolen – Addasu modurdu yn annedd.

Sŵn yr Afon, Deiniolen – Codi rhan o'r tô.

19, Bron y Waen, Rhiwlas – Estyniad.

Fferm Llech Arian, Llanddeiniolen – Addasu adeilad amaethyddol i wneud tŷ.

Adroddiadau
Cyflwynwyd Rhagen a Chofnodion Bwrdd 'Gyda'n Gilydd, Deiniolen'

Dyddiad y Cyfarfod nesaf – 6 o Ionawr 2004.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

Fframia **Gwasanaeth Fframio Lluniau**

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

NWYDDAU GROSER, LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Silver STAR

GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

NEWYDDION O'R YSGOL GYMUNED. Bu'n hanner tymor prysur yn yr ysgol. Ar fore Sadwrn ddechrau Tachwedd daeth criw i blannu a thacluso'r ardd cyn y gaeaf. Diolch i'r yschydig ddaeth i blannu a diolch am y planhigion a'r bylbiau.

Bu nifer o'r plant yn cystadlu yn yr Eisteddfod. Da iawn chi a daliwch ati.

Llongyfarchiadau i Mrs Morris, Bl.5 a 6 a'r teulu ar enedigaeth mab bach, Ithel. Dal i ddisgwyl am newyddion am Mrs Humphreys!

Cafodd plant Bl.5 a 6 gyfle i brofi Nadolig Fictorianaidd yn Llanberis. Yn ogystal a dysgu am y Plygain a hen arferion Nadoligaidd, cawsant wneud addurn Nadolig ar lechen i fynd adref i gofio.

Croesawn ddwy fyfyrwraig i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn. Gobeithio y bydd Miss Elen Evans a Miss Lowri Morris yn hapus yn ein plith.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at Ymgyrch Operation Christmas Child. Rydym wedi derbyn 48 o focsys.

Diolch i Miss Heather Johnson o Goleg Menai, sy'n gadael ar ôl treulio tymor yn ein plith. Pob hwyl ar weddill y cwrs.

Erbyn i'r Eco ddod allan bydd Gwasanaeth Nadolig yr ysgol wedi bod a phawb wedi cael llond bol o ginio Dolig blasus gan Anti Janice ac Antis y gegin! Diolch i bawb!

Dymunir Nadolig Llawen i holl ffrindiau'r ysgol a diolch am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr a'r enillwyr oedd: Ann Jones, Ty'n Gerddi; Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt; Ken Williams, Trem Cynfi.

Dymunir diolch i chwi ffyddloniaid y Clwb Cant am eich cyfraniad gwerthfawr yn 2003, gan wir obeithio y ceir yr un gefnogaeth yn 2004. Cofier mae modd talu drwy Archeb Banc, ar gael gan aelodau'r Pwyllgor, neu 50c y mis, neu £6 y flwyddyn, drwy law y Pwyllgor.

Buasem yn falch iawn o fwy o aelodau gan fod y Clwb Cant yn hwb sylweddol tuag at y gost o redeg y Neuadd a phrynu adnoddau ar gyfer yr amrywiol weithgareddau. Atgoffir chwi y bydd angen adnewyddu'r aelodaeth ym mis Ionawr.

Nos Wener, 5 Rhagfyr, cynhaliwyd Ocsiwn Addewidion. Er mai ychydig, heblaw aelodau'r Pwyllgor, a gefnogodd y noson, gwnaed elw sylweddol o bron i £800. Dymunir diolch i'r holl fusnesau lleol, cyfeillion a phawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd. Diolch i Arwel ac Eifion am eu gwaith caled. Diolch hefyd i'r plant a gymerodd ran yn y noson. Gobeithir dod o amgylch y pentref i ganu Carolau os bydd y tywydd yn ffafriol.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA.

Bu'r Darllen Distaw Noddedig tuag at Action Aid yn llwyddiant mawr a dymunir diolch i chwi, rieni a ffrindiau, am noddi'r plant mor haelionus. Diolch hefyd i aelodau Ysgol Sul Bosra am eu croeso.

Bnawn Sul, 14 Rhagfyr, bedyddiwyd Meilir Parry, mab bychan Sioned a Gwyn Parry. Gweinyddwyd gan Mr Merfyn Jones, Caernarfon. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Ysgol Sul gyda'u stori am 'Y Rhodd Orau'.

Hanes pedwar dyn cyhyrog adeg y Rhuthr am Aur yn y gorllewin gwyllt yn darganfod bachgen bychan ar riniog eu drws. Buan iawn y daethant i sylweddoli fod rhodd o blentyn bach yn llawer mwy gwerthfawr nag aur hyd yn oed. Stori sy'n atgoffa pawb am y baban bychan yn y preseb – bachgen a dyfodd i newid bywydau pobl. Fe ddaeth Sant y Plant draw i'w gweld hefyd, gan addo dod yn fuan at blant da Penisarwaun. Felly gwely'n fuan blantos!

Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn y Sul ar ôl i'r ysgol ddechrau.

GAIR O GYDYMDEIMLAD.

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Eirlys Jones, Bryn Hyfryd, o golli brawd yng nghyfraith o Ddeiniolen.

Yn yr un modd, anfonir ein cydymdeimlad dyfnaf at Mark Williams, 5 Bryntirion, ar golli ei dad, Hywel, 1 Bro Rhiwen, Rhiwlas.

DIOLCH.Dymuna Sara ac Osian, Llys Arfon, Brynrefail, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur eu priodas yn Auxerre, Ffrainc yn ddiweddar.

DYMUNA Jên a Richard Morris, Tregarth, ddiolch i staff yr Ysgol Gymuned, rhieni a chyfeillion am eu dymuniadau da a rhoddion ar achlysur hapus genedigaeth eu mab bychan, Ithel. Cofio atoch fel teulu.

HWYL Y SIOPA NADOLIG. Eto eleni, aeth llond bws o wragedd hwyliog i wneud eu siopa Nadolig yn Lerpwl. Roeddent yn aros yng Ngwesty'r Adelphi. Dymunir diolch i'r genod fu wrthi'n gwneud y Cynhaliwyd Ffair Nadolig, nos Wener, 5 Rhagfyr a gwnaed elw o tua £250 tuag at Ginio Nadolig i'r Henoed yng Ngwesty'r Buckley, Biwmaris, gyda chyfle i siopa yn Llanfairpwll wedi'r gwledda.

Dymunir diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at y gweithgareddau.

EISTEDDFOD BENTREF. Y mae'r gystadleuaeth cynllunio **Logo Gwefan yr Eisteddfod yn agored tan 31 Rhagfyr.** Gweler y wefan: www:eisteddfodpenisarwaun .org.

Ni dderbynnir cais ar ôl y dyddiad yma. Cyhoeddir y canlyniad ar y wefan ac yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

CYFARCHION NADOLIG.

Dymuna Mrs Betty Evans, 11 Llys y Gwynt, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion, ffrindiau a hefyd ei chysylltiadau ym Mrynsiencyn.

EGLWYS SANTES HELEN.

Dyma Wasanaethau'r Eglwys yn ystod Rhagfyr:

14: Cafwyd Gwasanaeth Naw Llith a Charol gydag aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan.
21: Gweinyddir y Cymun Bendigaid am 10.30 y bore.
24: Noswyl y Nadolig am 11.30 y.h. Gweinyddir y Cymun Bendigaid.
28: Cymun Undebol yn Eglwys Santes Fair, Y Felinheli am 11.00 y.bore.

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.

Nadolig Dedwydd i chwi oll.

Cyfarchion Nadolig PENISARWAUN

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr Eco

Nadiolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth
oddi wrth
Alwyn a Sarah Penisarwaen Ffôn **870605**

Blodau Racca

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig a 'Crem Pots'
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Cyfarchion **Dylan Griffith** Y Tymor

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal, yn cynnwys:
PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS
Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**
Symudol: **07778127394**

HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce*

Ar WERTH

Set o ddrymiau cychwynnol
'Session Pro'
5 darn (heb symbalau)
Pris **£95** (£370 yn newydd)
Ffôn: **870 735**

CÔR ERYRI

I gloi gweithgareddau'r flwyddyn, trefnwyd Cyngerdd Nadolig ar nos Sul, 14 Rhagfyr, 2003, yng Nghapel Cysegr, Bethel. Roedd yn braf gweld y Capel yn llawn a chafodd y gynulleidfa noson i'w chofio yng nghwmni Meibion Llywarch, Meirion MacIntyre Huws, Gwenan Gibbard, Côr Clychau'r Grug, Susan Williams – a Chôr Eryri ei hun, wrth gwrs. Diolch i bawb a gymerodd ran ac yn arbennig i Swyddogion a Gofalwyr Capel Cysegr, Bethel, am eu cymorth a'u cydweithrediad.

Uchafbwynt y noson oedd clywed y tri chôr yn ymuno i ganu'r gân hyfryd 'Hafan Gobaith' ar y diwedd, a llwyddwyd i godi swm teilwng iawn tuag at Apêl Tŷ Gobaith – mae Manon, ein Trysorydd, yn dal i gyfrif!

Os oes gennych awydd ymuno â'r Côr yn y flwyddyn newydd, beth am ffonio'r arweinydd, Siân Wheyway, am sgwrs ar 01286 872001. Rydym yn griw o genod

Ar Ben Arall y Lein

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad cadeirydd y gymdeithas i'r Pwyllgor Blynyddol a gynhaliwyd yn yr Institiwt, Caernarfon nos Iau, 11 Rhagfyr eleni.

Adroddiad y Cadeirydd am y Flwyddyn 2003

Pleser yw cael cyflwyno yr adroddiad yma ar weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn.

Y Tymor

Rhyw dymor digon cymysg oedd 2003, o ran y tywydd ac i'r pysgotwyr. Os cofiwch yn ôl i Fis Mawrth roedd pawb yn llewys eu crysau wrth ddechrau chwilio am frithyll yn yr afonydd. Fe ddaeth Ebrill a thywydd mwy tebyg i'r arfer, ac ymddengys fod y cynhesrwydd cynnar wedi bod yn hwb i'r pysgod gryfhau ar ôl y gaeaf, ac roedd cyflwr y brithyll yn ein dyfroedd yn y gwanwyn yn werth ei weld. Cafwyd daliadau da ar yr afonydd ac ar Lyn Padarn ar ddechrau Ebrill – 'Fel yr oedd hi ugain mlynedd yn ôl,' oedd geiriau un hen law o Lanber.

Roedd Nantlle hefyd yn pysgota'n dda iawn o ddechrau'r tymor. Pan agorodd Llyn Dywarchen fe gafodd rhai aelodau ddaliadau da iawn yn y dyddiau cynnar. Yn anffodus, bu problemau hefo stocio yn ystod y gwanwyn, yn rhannol oherwydd trafferthion yn y ddeorfa yn Crawia, ond daeth pethau i drefn yn ystod yr haf ac mae'r pysgota wedi bod yn foddhaol tuag at ail hanner y tymor.

Yn ystod Mehefin dechreuodd y torgoch ddod i law ar Lyn Padarn ac fe'u daliwyd yn gyson drwy Awst a Medi.

Ar afon Llyfni roedd sôn fod pethau'n araf deg ar y dechrau, ond fe gafwyd nifer o eog yn ystod yr haf pan gododd y dŵr. Yn hwyrach ymlaen, fodd bynnag, roedd stoc arbennig o sewin wedi hel yn y pyllau rhwng Pontllyfni a'r môr. Wrth edrych yn ystod y dydd roedd gwely'r afon mewn rhai pyllau yn ddu – heigiau o sewin yn gwau drwy'i gilydd. Efallai fod y pysgod, ar gyfartaledd, yn gymharol fach ond roedd rhai mawr yn eu mysg ac mae rhai aelodau wedi cael haf llwyddianus iawn yn 'sgota oriau'r nos ar afon Llyfni.

Cafwyd sewin yn ystod yr haf ar hyd y Seiont hefyd, rhwng y môr a Crawia, er nad oedd cymaint i'w gweld yn y pyllau a'r llynedd.

Ond eto daeth mis Medi sych i dorri ein calonnau – heb olwg o ddŵr am wythnosau – a'r bobl tywydd yn brolio'u hystadegau oedd yn dangos ein bod yn y Medi sycha ers degawdau. Am yr ail dymor yn olynnol doedd dim i'w wneud ond disgwyl i'r tywydd newid. Mae safon dŵr afon Seiont yn gwella pob blwyddyn. Mae gwaith da wedi ei wneud ar rannau uchaf yr afon i wella cynefinoedd i fagu eogiaid ac, ar ddiwedd y tymor yn 2002 roedd yr afon yn llawn pysgod; ond oherwydd y tywydd anffafriol (mae hwn tu hwnt i reolaeth y Cyfarwyddwyr!) mae'r prif 'sgota eogiaid eto wedi ei wasgu i'r ychydig wythnosau cyn diwedd y tymor a'r estyniad. Mae'n rhaid paratoi'r adroddiad yma cyn diwedd y tymor – mae'r glaw wedi cyrraedd bellach ac mae pysgod wedi eu dal – rhai mawr hefyd, yn cynnwys pysgod o 14 a 15 pwys, ond gobeithiaf bod mwy i ddod cyn diwedd y tymor

Ein Hawliau

Mae'n anodd trafod ein hawliau heb gydnabod y siom a deimlwn wrth golli'r hawl i 'sgota'r Seiont yng Nglan Gwna o ddechrau 2004. Mae'r perchennog wedi dweud na fydd yn adnewyddu'r cytundeb hefo'r Gymdeithas. Fe ddigwyddod hyn yn ddirybydd a heb drafodaeth. Mae ein haelodau wedi talu i fwynhau'r fraint yma ers rhai blynyddoedd – nid yn unig yn pysgota ond wrth gwrs yn cerdded y glannau, gwarchod yr afon a hefyd wedi gweithio'n galed i glirio coed a'r llwybrau i hwyluso mynediad. Bu criw o'r aelodau yn gwneud gwaith sylweddol yno yn ystod gwanwyn 2003. Mae'r gwaith gwerthfawr yma wedi ei wneud yn ddi-dâl ac wedi cyfrannu at wella'r adnoddau i bysgotwyr yng Nglan Gwna. Trueni nad oedd hyn yn ddigon i sicrhau'n perthynas â pherchennog yr hawliau.

Unwaith eto, rydym yn gweld y problemau a fedr godi dros nos wrth ddelio â hawliau sydd ar rent. Mae'n gysur gwybod fod cymaint o'n dyfroedd eraill wedi dod i'n perchnogaeth drwy ymdrechion y Swyddogion a'r Gymdeithas yn y gorffennol.

Datblygiadau

Eto mae'r Gymdeithas wedi gweithio'n agos hefo Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae'r berthynas wedi arwain at waith i wella ein dyfroedd, er enghraifft y llwybr pysgod newydd sydd wedi ei osod ar afon Seiont yn Nant Peris. Yn ychwanegol i hyn fe roddwyd 10,000 o sewin mân yn afonydd Peris a Hwch yn ystod yr haf, a stocio pellach i Ffos y Dail i gywiro'r difrod a fu yno.

Mae gwaith gwella cynefin a ffensio nentydd wedi mynd ymlaen ar ein tair afon, i fanteisio'n llawn ar yr adnoddau naturiol. Nid oes gan y Gymdeidlas yr arian i dalu am y math yma o waith, yn hytrach, drwy gyfarfod â'r gwahanol gyrff, cyflwyno tystiolaeth a mynegi barn, mae posib dwyn perswad ar bobl fod y gwaith yma yn bwysig a gwerthfawr am lawer o wahanol resymau. Engrhaifft dda yw'r ffaith fod y cynllyn stocio, a oedd i liniaru effaith gwaith Cynllun Dinonwig yn ôl ar ddechrau'r wythdegau, ond a anghofiwyd amdano, wedi ei ail gychwyn.

Ar Lyn Nantlle, wrth gwrs, y datblygiad mawr oedd codi'r jeti. Bellach mae'r jeti yn ei lle, a'r man parcio i aelodau. Mae wedi cael tipyn o ddefnydd drwy'r tymor gan bysgotwyr a hefyd gan aelodau yn hyfforddi rhai yn dechrau ar eu gyrfa hefo genwair.

Gweithgareddau eraill

Mae'r aelodau wedi bod yn brysur ar wahân i bysgota. Cafwyd arwerthiant gêr pysgota llwyddiannus yn Llanbris ym mis Mawrth. Yn ystod yr haf cynhaliwyd y sesiynau hyfforddi ar Lyn Nantlle gyda chriw da yn mwynhau dysgu elfennau castio ar y jeti cyn mentro i'r cychod ar y drydedd noson.

Ond wrth ochr yr afon mae'r ôl gwaith mwyaf i'w weld. Efallai ein bod wedi colli ychydig o'n hawliau ond drwy waith caled rhai o'r aelodau mae'r mynediad at lawer o'n dyfroedd bellach yn cyflwyno cyfleoedd newydd i bob aelod. Enghreifftiau yw'r torri coed a chodi pontydd ar y marddwr o Benllyn i Gwm-y-Glo, a'r gwaith clirio coed ac agor llwbrau (sydd hefyd yn addas i'r anabl) at ochr Llyn Tywod ar afon Seiont, a rhwng Pontllyfni a'r môr.

Mae'r gwaith ar Melin y Cim ar afon Llyfni yn araf yn dechrau ond gobeithiwn symyd ymlaen cyn hir.

Mae'r Gymdeithas yn trafod prynu cwch i'r anabl (*Wheelyboat*) gyda Asiantaeth yr Amgylchedd.

Y Fantolen Ariannol a'n Heiddo

Cawn glywed manylion am y sefyllfa hefo tocynnau ymwelwyr ac aelodaeth ar noson y cyfarfod, ond ymddengys fod rhai tocynnau, e.e. Llyn Cwellyn eto wedi gwerthu'n dda. Mae'n rhaid cofio mai tocynnau ac aelodaeth sydd yn cynnal ein hincwm.

Ar ddechrau'r flyddyn roedd sôn yn y wasg bysgota am arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi i gynnal pysgodfeydd hamdden yng Nghymru. Mae'r Cynulliad wedi rhoi £800,000 y flwyddyn yn ychwanegol i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru am dair blynedd o fis Ebrill 2002 i hybu gwella pysgodfeydd a'u cyfraniad i economi cefn gwlad. Mae ein Cymdeithas ni eisioes wedi arwain wrth fantcisio ar y math yma o gymorth ac mae'n hanfodol ein bod ni yn parhau i weithio hefo'r gwahanol gyrff i drafod datblygiadau a fedr fod o fendith i'n haelodau a'r ardal.

Mae'r Gymdeithas wedi bod yn trafod codi adeilad yn Crawia – ystafell a chanolfan i bysgotwyr – yn bennaf yn eiddo i'r Gymdeithas, ond efallai y medr gael ei ddefnyddio gan gwpiau eraill. Un elfen ddadleuol yw'r awgrym y dylai'r datblygiad gynnwys cyfleusterau i ganiatau i ganŵs, efallai, ddefnyddio'r afon yn y dyfodol. Mae canŵs ar yr afon yn groes i ewyllys y rhan fwyaf ohonom. Ond fel mae pethau wedi newid yng nghefn gwlad yn y blynyddoedd diweddar mae rhai yn teimlo y bydd mynediad i'r dyfroedd i ddefnyddwyr eraill, fel canŵs, yn dod yn orfodol, beth bynnag yw ein gwrthwynebiadau. Mae'r *Right to Roam* a gwahardd hela yn yr Alban yn enghreifftiau o ddatblygiadau diweddar.

Yn 2002 fe ddywedodd y *Salmon and Trout Association* 'Buasai'n well petai cyrff â diddordebau pysgota yn gwneud trefniadau gwirfoddol gyda defnyddwyr eraill lle bo posib...' Mae'r Cyfarwyddwyr yn teimlo y buasai hwn yn gyfle i'r Gymdeithas ei hunan sefydlu rheolaeth dros unrhyw hawliau canwio ar yr afon am byth. Mae'n hanfadol gwybod barn yr aelodau ar hyn, h.y. nid eu barn am ganŵs ar yr afon – sydd yn glir yn barod – ond yn benodol a ddylai'r Gymdeithas symyd ymlaen hefo'r datblygiad yn Crawia, a chydag unrhyw ddatblygiadau i ganŵs yn y dyfodol ar dermau'r Gymdeithas?

Ar ddiwedd y flwyddyn hoffwn ddiolch, yn arbennig i'r Ysgrifennydd am ei waith yn y maes yma ac eraill yn ystod y flwyddyn Diolchaf hefyd i'r Trysorydd, y Cyfarwyddwyr a holl aelodau'r pwyllgor am eu gwaith. Mae diolch mawr hefyd i'r aelodau a fu wrthi yn trefnu a chyflawni'r holl waith a ddisgrifiais yn yr adrodddiad.

Ar ran y Pwyllgor a'r Swyddogion hoffwn gynnig y dymumiadau gorau i chi a'ch tenluoedd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a phob hwyl gyda'r enwair yn 2004.

DR ROBIN PARRY,
CADEIRYDD

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL CWM

Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

CLWB ERYRI

Bardd y noson yng nghyfarfod Clwb Eryri, a gynhaliwyd yng ngwesty'r 'Quality Hotel Snowdonia' nos Wener, 5 Rhagfyr oedd John Huw Hughes, Llanberis. Roedd yn amlwg fod y bardd wedi treulio dyddiau yn meistroli'r Verse Libre cyn cyflwyno ei gerdd dan y testyn 'Cyfarchiad i Aelodau Clwb Eryri '.

Cyfarchwyd siradwr y noson, sef y Meddyg Robin Parry, gyda cherdd gan y bardd a Llywydd y noson, Iolo Llywelyn, a'i cyflwynodd. Cafwyd cyfeiriadau at feddyg llawn hwyl a chwerthin nad oedd yn or hoff o ddefnyddio moddion!

Mewn sgwrs hynod o ddifyr, llwyddodd Robin Parry i weu i'w gilydd hanes ei deulu, gyda hanes rhan arbennig o'r Eidal, yn gelfydd iawn. Mae teulu ei wraig yn hanu o ranbarth Abruzzi, a chan ei fod wedi ymweld sawl gwaith â'r rhan yma o'r wlad, roedd y Meddyg mewn sefyllfa arbennig i sôn am arferion byw a datblygiad y rhan yma o dde ddwyrain yr Eidal. Cafwyd disgrifiad byw o'r rhan yma o arfordir môr yr Adria sydd, o ran tirwedd, yn debyg iawn i Gymru. Mae'r ardal wedi elwa yn fawr gyda grantiau o Ewrob, ond er hynny, wedi cadw llawer o'u hen arferion. Er fod yr Eidalwyr eu hunain yn hoff iawn o ymweld â'r rhan yma o'r wlad, nid yw twristaieth torfol wedi darganfod y rhanbarth yma eto. Rhoddodd y siaradwr sawl enghraifft ddifyr o'r modd y mae'r Eidalwyr yn bencampwyr ar greu biwrocratiaeth, ond, ar yr un pryd, yn torri pob rheol yn y llyfr yn eu bywyd bob dydd.

Wedi trafodaeth ddifyr o'r llawr, gyda sawl aelod yn sôn am eu profiadau personol yn yr Eidal, diolchwyd i'r siaradwr gan Brython Jones. Wedi anfon cofion yr aelodau at Eurwyn Jones yn Ysbyty Gwynedd, a chyflwyno dymuniadau tymhorol i'r aelodau, cyhoeddodd y llywydd, Geraint Elis, bydd y cyfarfod nesaf ar nos Wener, 2 Ionawr 2004, a'r siaradwr fydd Gwynn Davies, Waunfawr, gyda Ifan Parry yn llywyddu'r noson.

DRAENOG

Glywsoch chi hanes gwraig o fro'r Eco
Yn anfon ei sgerti i'r *cleaners* i'w twtio,
Ac i fod i'w derbyn yn ôl dydd Gwener?
Ond bu'n disgwyl drwy'r dydd, a hynny yn ofer.

Fe ffoniodd y 'Cambrian' i holi amdanynt
Ond ni wyddent hwy eu hynt na'u helynt,
Ar ac ôl yr holl holi a chwilio a chwalu
Cysidrodd fod dydd Mawrth yn ddiwrnod ailgylchu.

Wrth feddwl am hyn aeth yn chwys domen drosti
Ac yn poeni mewn difri lle 'roedd ei sgert hi.
Mae nwyddau ailgylchu'n cael EU Rhoi mewn bocsyn,
Ond 'roedd rhain yn dwt ar ben y giât mewn CWDYN.

Mae'r Cyngor yn derbyn pob math o decstiliau,
Ond peth gwahanol yw mynd â dillad gorau;
Felly mae'n rhaid bod rhywun yn rhywle yn ddwl,
Yn cymryd dwy sgert dda – rhai o Edingbro Wool.

Rhai i ninnau, felly, fod yn fwy gwyliadwrus,
Ac edrych allan am ddynion y bocsys.
Dim ond edrych ar y calendr gawsom sydd angen
Mae'n dweud digon clir pryd maent yn Neiniolen.

Hei lwc y Nadolig 'ma y bydd hi yn lwcus
Yn cael sgertan yn anrheg, neu efallai drowsus;
Ac y gwnaiff fwynhau llaWENydd yr Ŵyl,
A chymryd rhiw rigwm fel hyn yn hwyl!

Jones & Whitehead Cyf.
Contractwyr Trydan
Goleuadau Argyfwng ac offer Larwm Tân
Gwasanaeth i Gymru Gyfan
Aelod o NICEIC Contractwyr Trydan Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
Prif swyddfa
Penrala, Tregarth, Gwynedd
Ffôn: 01248 601257
Ffôn (nos):
01248 600477 a 601011
Ffacs: 01248 601982

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: DANNY a NERYS ROBERTS
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll oddi wrth bawb yng
NGORSAF BETROL ESSO BERAN
DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn
TICEDI LOTERI AR WERTH

Côr CLYCHAU'R GRUG

Mae'r Côr wedi cael blwyddyn llawn unwaith eto gyda'r gweithgareddau yn cychwyn ym mis Mawrth, yn diddanr Henoed y cylch gydag ymweliadau i Hafan Elan, Llanrug; Cartref Nyrsio Penisarwaun; Plas Pengwaith, Llanberis a Phlas Maesincla, Caernarfon.

Yn Ebrill a Mai bu'r Côr yn rhan o'r gynulleidfa mewn dwy Gymanfa Ganu: y gyntaf yng Nghapel Salem, Caernarfon, ar gyfer *Caniadaeth y Cysegr*, ac yna yng Nghapel Coch, Llanberis, ar gyfer *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*. Fe ddaeth misoedd yr haf wedyn ac ymwelwyr, yn aros yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, yn cael eu diddanu can y Côr. Mae'r croeso bob amser yn un gwresog gan y rhai sydd ar eu gwyliau o bob rhan o Brydain.

Ar ôl seibiant yn ystod mis Awst, dechreuwyd ar y gweithgareddau eto, gan gymryd rhan mewn Cymanfa Ganu i agor wythnos Gŵyl Ffair Nant, yn Nant Peris. Croesi'r bont i Fôn ym mis Hydref a diddanu aelodau o Gymdeithas Lenyddol Capel Moriah, Llangefni yn noson agoriadol y tymor. Ar gais Cyfeillion Ysbyty Gwynedd bu'r Côr yn canu mewn noson Sioe Ffasiwn yn Pringles, Llanfairpwll yn Nhachwedd ac yna, ar ddechrau Rhagfyr, noson Nadoligaidd i'r ymwelwyr. Yna ar wyliau '*Turkey and Tinsel*' yn y Victoria. I ddiweddu gweithgareddau am y flwyddyn rhannwyd y llwyfan gyda Chôr Eryri, Meibion Llywarch ac eraill mewn cyngerdd yng Nghapel y Cysegr, nos Sul diwethaf.

Fel canlyniad i redeg raffl yng ngwesty'r Fictoria pan yno yn diddanu, penderfynwyd cyflwyno £450 i Apêl Tŷ Gobaith yng Nghymru a £150 i Gymdeithas Cŵn i'r Deillion.

Dymuna'r aelodau Nadolig Llawen i bawb.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?
YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055
Cyfarchion y Tymor i bawb

DODREFN PERKINS

SÊL Y GAEAF

Gwasanaeth Mesur a Ffitio

yn dechrau am 10a.m.
Dydd Sadwrn, Rhagfyr 27

2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn: (01286) 676040
Yn ogystal â dodrefn, cofiwch hefyd am ein dewis mawr o GARPEDI; LLENNI a LLORIAU PREN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn, Rhiannon a'r staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES
A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Ar Goll

Glywsoch chi am y ferch ifanc honno o Lanberis yn dal bws yng Nghaernarfon. Mi gymrodd hi'r holl ffordd o Gaernarfon i Lanbeblig iddi sylweddoli ei bod ar y bws anghywir; oedd yn ei thywys i'r Waunfawr yn hytrach na Llanbêr! Bu'n rhaid iddi gerdded yr holl ffordd yn ôl i'r dre i ddal y bws iawn.

Wna i ddim ei henwi, dim ond dweud na chafodd y profiad anffodus ddim effaith barhaol arni gan fod GWÊN 'DA hi ar ei hwyneb o hyd.

RHODDION

£20: Megan Pritchard, 3 Hafan Elan, Llanrug.

£10: Brenda Williams, er cof am William Orwig, 6 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs M. Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, Llanrug; Er cof am Ellen Roberts, 12 Llys Gwynt, Penisarwaun; Mrs Mona Mai Griffiths, 2 Hafan Elan, Llanrug.

£5: Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Olau, Deiniolen; Doris (Huw Bara) Williams, Llanberis; Dic a Hefina Jones, 8 Rhos Rug, Llanrug; Mrs Betty Evans, 11 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Wyn Rowlands, Glanrafon, Cwm-y-glo; Annie Williams, Tŷ Newydd, Bethel; Aled a Llinos Jones, Fachell, Llanddeiniolen; Mrs Nansi Jones, 20 Hafan Elan, Llanrug; Mrs B.P. Jones, Cartref Preswyl Gwynfa, Caernarfon; Er cof am Mrs Jane Williams, Bryn Llan, Llanrug.

£3: Eleanor a Derek Morris, Ffordd Deiniol, Deiniolen.

£2: Eifion a Bessie May Williams, Deiniolen.

Rygbi Yng Nghaernarfon

Ar ôl cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd bydd sesiynau ymarfer Clwb Rygbi Caernarfon yn ail-gychwyn yng nghanol mis Ionawr. Bydd sesiynau i hogia ysgol uwchradd yn ail-gychwyn am 6.00 nos Fawrth, 13 Ionawr. Wedyn am 6.00 ar nos Wener, 16 Ionawr, bydd sesiynau i hogia a genod ysgolion cynradd yn cychwyn eto. Croeso i aelodau newydd!

Atebion y Cwis 'Doliq

1. Gogledd Iwerddon.
2. Carl Dale.
3. Yr Ariannin.
4. Neville Southall.
5. Simon Jones.
6. Tony Gray.
7. Y Belfry.
8. am ennill 50 cap rhyngwladol.
9. Dylan Llywelyn.
10. Andre Watson.
11. Porthmadog, Bangor ac Aberystwyth.
12. Blaenau Ffestiniog.
13. Ray Reardon.
14. Glasgow Celtic.
15. Rwmania.

CHWARAEON

Croniclo Hanes

Braf oedd cael cais yn ddiweddar i adolygu llyfryn chwaraeon yn y golofn. Yn wir, mae'n braf cael canmol y llyfr, sydd ar werth am £2 yn unig. Edrych yn ôl sydd yma ar ddeng mlynedd ar hugain cyntaf Clwb Rygbi Tref Caernarfon. Mewn sawl ffordd, dyma glwb rygbi Bro'r Eco, gyda nifer o fechgyn o'r ardal wedi gwisgo'i liwiau.

Mae yna gryn ddiddordeb yn y gêm yn Ysgol Brynrefail ar hyn o bryd, a nifer o aelodau'r timau hynny yn elwa o sesiynau ymarfer y clwb ar Y Morfa.

Croniclydd yr hanes yw Clive James o Gaeathro, gŵr a fu'n gysylltiedig â'r clwb mewn sawl swydd ers y cyfarfod sefydlu cyntaf o Glwb Rygbi Caernarfon a'r Cylch. Cynhaliwyd y cyfarfod ar 6 Tachwedd 1973, yng nghlwb y Marbryn yn y dref. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y 'comiti' yn ystafell Des Treen, yr athro Mathemateg yn Ysgol Syr Hugh. Des Treen oedd calon y clwb a'r llywydd cyntaf. Yn wir, bu cysylltiad agos rhwng y clwb a'r ysgol ers y dechrau, a'r ddau sefydliad yn gwerthfawrogi cyfraniad y naill a'r llall.

Yr hyn sy'n bwysig am y llyfr, yn fy marn i, yw ei fod wedi canolbwyntio ar y pethau pwysig mewn unrhyw glwb: y chwaraewyr, y gemau, yr hwyl, y siom a'r datblygiad. Mae'n llyfryn sy'n darllen yn rhwydd iawn, ac mae'r lluniau o safon uchel iawn. O, fel mae rhai o grwts y 70'au wedi heneiddio erbyn hyn!

Yn sicr, mae hwn yn llyfr sy'n croniclo twf clwb, a'i weledigaeth. Teg yw rhoi sylw i ymroddiad y ffyddloniaid – drwy rai cyfnodau llwm iawn – a wêl y clwb ar drothwy cyfnod llewyrchus gobeithio.

Mae datblygiad chwaraewyr drwy hyfforddi ieuenctid wedi ei hen sefydlu, ac mae'n braf gweld rhai fel Cai Griffiths a Marc Jones, erbyn hyn yn ymwneud â chlybiau dosbarth cyntaf, ac wedi gwisgo'r cap coch. Yna datblygiad rygbi merched, maes y mae'r clwb yn bendant ar flaen y gad. Genod tyff y dre!

Ceir cyfeiriadau at uchafbwyntiau unrhyw glwb, sef y teithiau. Yn anffodus, ni chawn wybod 'popeth'. Efallai y daw rhyw atodiad rhyw ddydd.

Y mae'r llyfr yma yn fwy na chronicl o ddigwyddiadau, y mae'n gosod sylfaen a her i chwaraewyr a gweinyddwyr y dyfodol. Yn sicr, ar ddiwedd Cwpan Rygbi'r Byd, a fu mor llwyddiannus, dyma'r adeg i ymuno â chlwb rygbi lleol. Os yw'r ffyddloniaid am wireddu breuddwyd a gweld tîm rhanbarthol yma yn y gogledd, yna rhaid iddo ddod o'r gwreiddiau cynhenid yma yn y gogledd.

Gwir y dywed Clive yn ei her i aelodau'r dyfodol – cofiwch, cofnodwch a chyfrannwch!

Diolch i bawb a gyfrannodd, ac am £2 dyma anrheg pleserus i unrhyw un sy'n dilyn byd y campau. Gellir prynu'r llyfryn yn siop Palas Print, neu o'r clwb ar y Morfa. Ymlaen felly tuag at yr hanner can mlynedd.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr Eco

Gemau Lleol yr Ŵyl

Prin iawn yw'r arlwy ar gyfer y Nadolig. Dyma dymor y gemau darbi a chyfle am wneud dipyn o bres ar y giât. Fel y croniclwyd eisoes, mae Llanberis a Llanrug eisoes wedi cyfarfod ddwy waith. Oni fuasai Gŵyl San Steffan wedi bod yn ddiwrnod da i gael gêm ddarbi? Yn eu cynghrair nhw, ni fydd gemau Sadwrn ar ôl y Dolig. Bydd gêm ddarbi ar y diwrnod hwnnw pan fydd Bethel yn croesawu Deiniolen.

Yn lleol y prif gêm fydd ar yr Oval ar Ŵyl San Steffan, pan fydd y Cofis yn croesawu y Bangor lads. Yn y tymhorau diwethaf bu gemau agos, llawn cyffro rhwng y ddau dîm. Tybed a gaiff Eifion Jones, capten Bangor drip llwyddiannus i'r Oval? Gyda llaw, mae'n siŵr fod cefnogwyr Ffordd Farrar wedi cael llond bol o 'groesawu' Mark Lloyd Williams yn ôl. Mae wedi rhwydo yn gyson yn y gemau rhwng Bangor ac Aberystwyth yn ddiweddar.

Ras Hwyl / Cerdded Llyn Padarn

Mae Clwb Rhedwyr Eryri yn cynnal eu ras hwyl flynyddol o amgylch Llyn Padarn ar fore Sul, Rhagfyr 21ain. Mae'r achlysur wedi dod yn draddodiad poblogaidd gyda theuluoedd dros y blynyddoedd, ac yn rhoi cyfle i redeg, loncian neu gerdded o amgylch y llyn gan rannu cwmniaeth hefyd. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r hwyl – does dim angen bod yn aelod o'r Clwb.

Bydd y cofrestru yn cychwyn am ddeg y bore yng Ngwesty Fictoria, a'r ras ei hun yn cychwyn am unarddeg. Y gost i oedolion fydd £3.00 a £1.00 i bawb dan 16 oed. Am hynny, bydd cawl a mins pei yn aros pawb sy'n cwblhau'r cwrs. Bydd cyfle hefyd i ennill gwobrau mewn raffl ac wrth ddyfalu amser Siôn Corn i gwblhau'r ras. Ac i goroni'r cyfan, bydd cystadleuaeth gwisg ffansi.

Dowch draw i Lanberis i gael tipyn o ymarfer corfforol cyn dechrau gloddesta dros yr Ŵyl!

Cwis 'Dolig

1. Pa wlad yw deiliaid Cwpan Pêl-droed Gwlcdydd Prydain?
2. Mae Robert Earnshaw newydd sgorio 100 gôl i Gaerdydd. Pa ogleddwr gyflawnodd yr un gamp?
3. Pa un o brif wledydd rygbi hemisffer y de, sydd ddim yn cystadlu yn y 12 Disglair (Super 12)?
4. Pa gôl-geidwad sydd wedi ennill y nifer mwyaf o gapiau i Gymru?
5. Pwy yw'r chwaraewr olaf o Forgannwg (ar wahân i Croft) i gael cap i Loegr?
6. Pwy oedd hyfforddwr tîm rygbi Cymru y tro olaf iddynt ennill y goron driphlyg?
7. Ar pa gwrs y chwaraewyd y Cwpan Ryder llynedd?
8. Rhoddwyd capiau aur i rai o chwaraewyr pêl-droed Cymru yn ddiweddar. Pam?
9. Pwy yw awdur y llyfr *Awe!* sy'n croniclo teithiau cefnogwyr pêl-droed Cymru?
10. Pwy oedd dyfarnwr gêm derfynol Cwpan Rygbi'r Byd eleni?
11. I pa glybiau mae Marc Lloyd Williams wedi chwarae yng Nghynghrair Genedlaethol Cymru?
12. O pa dref Gymreig y daw tad Geraint Jones, wicedwr Caint a Lloegr?
13. Pa chwaraewr snwcer Cymreig sydd wedi ennill Pencampwriaeth y Byd y nifer mwyaf o weithiau?
14. Ar ôl Old Trafford, pa un yw'r maes clwb mwyaf o ran twf ym Mhrydain?
15. Yn erbyn pa wlad y methodd Paul Podin y gic o'r smotyn dyngedfennol?

Atebion ar y dudalen flaenorol.

Darbi ar y Radio!

Oes, mae 'na bosibilrwydd – yng nghwis bore Sadwrn y Weiren Gaws ar Radio Cymru.

Soniais yn ddiweddar fod Tîm Ieuenctid Llanrug drwodd i rownd nesaf y cwis. Yn ymuno â nhw fe fydd criw pwyllgor Tîm Ieuenctid Bethel. Llwyddodd y tîm lleol i guro Tîm Clwb Ffermwyr Ieuanc Penmynydd. Mae gwobr o git pêl-droed cyflawn i enillwyr y cwis – gwobr werthfawr iawn.

Gyda llawn, os daw hi'n gêm ddarbi, pa well dyfarnwr na'r Weiren Gaws ei hun – mae Stephen yn gefnwr de addawol i Lanberis.

Nadolig Llawen i'n holl ddarllenwyr gan y Golygydd Chwaraeon

Dymuniadau Chwaraeon 2004

1. I gefnogwyr pob camp yng Nghymru gredu y gallwn gystadlu ar y maes rhyngwladol.
2. I'r tîm rygbi cenedlaethol gario 'mlaen i chwarae'r math o rygbi mentrus, agored a welwyd yn y Cwpan Byd.
3. I glybiau pêl-droed Caerdydd, Wrecsam ac Abertawe wneud ymdrech bendant i ddatblygu chwaraewyr ieuanc Cymreig.
4. I Gymdeithas Pêl-droed Cymru roddi mwy o gefnogaeth i'n cynghrair genedlaethol, a hefyd i'r cyfryngau roddi mwy o sylw i'r gynghrair.
5. I'r clybiau ar bob lefel wneud ymgais bositif i leihau y safon annerbyniol o iaith aflednais ar y meysydd.
6. I rai o sylwebwyr pêl-droed Cymreig wella eu siarad cyhoeddus tu ôl i'r meic. (Dylai rhai ohonynt wrando ar Meilir Owen, sydd mor naturiol ei sylwadau).
7. Cael rhaglen chwaraeon wythnosol ar y teledu sydd yn ymdrin â chwaraeon Cymru yn unig.
8. Ymgais pendant gan Undeb Rygbi Cymru i feithrin tîm taleithiol yn y gogledd, wedi ei leoli yn y Cae Ras.
9. Adeiladu ar y system hyfforddi dda sy'n bodoli ym myd criced Cymru i feithrin a mynnu tîm cenedlaethol.
10. Dechrau campus i'n cais i gyrraedd Cwpan Pêl-droed y Byd. Bod yn ddisgybledig fel bod y tîm llawn ar gael ymhob gêm.
11. I gefnogi y llu yn lleol sy'n rhoi o'u hamser i feithrin talentau lleol mewn sawl camp.
12. I Fethel – cae yn y pentref